



*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate  
for Education and Training in Wales

# Dilyniant ieithyddol a safonau'r Gymraeg mewn deg ysgol ddwyieithog

## Tachwedd 2014

---

---

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ▲ ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol;
- ▲ ysgolion cynradd;
- ▲ ysgolion uwchradd;
- ▲ ysgolion arbennig;
- ▲ unedau cyfeirio disgyblion;
- ▲ ysgolion annibynnol;
- ▲ addysg bellach;
- ▲ colegau arbenigol annibynnol;
- ▲ dysgu oedolion yn y gymuned;
- ▲ gwasanaethau awdurdod addysg lleol ar gyfer plant a phobl ifanc;
- ▲ addysg a hyfforddiant athrawon;
- ▲ Cymraeg i oedolion;
- ▲ dysgu yn y gwaith; a
- ▲ dysgu yn y sector cyfiawnder.

Mae Estyn hefyd:

- ▲ yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- ▲ yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor

Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.gov.uk](mailto:cyhoeddiadau@estyn.gov.uk)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

[www.estyn.gov.uk](http://www.estyn.gov.uk)

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen benodol/cyhoeddiad penodol.**

<b>Cyflwyniad</b>	<b>1</b>
<b>Cefndir</b>	<b>2</b>
<b>Prif ganfyddiadau</b>	<b>5</b>
<b>Argymhellion</b>	<b>8</b>
<b>1 Dilyniant ieithyddol a rôl yr awdurdod lleol</b>	<b>9</b>
<b>2 Trefniadaeth gwricwlaidd</b>	<b>14</b>
<b>3 Addysgu dwyieithog</b>	<b>17</b>
<b>4 Safonau Cymraeg disgyblion cyfnod allweddol 4</b>	<b>20</b>
<b>5 Arweinyddiaeth a gweledigaeth</b>	<b>23</b>
<b>Atodiad 1: Sail y dystiolaeth</b>	<b>30</b>
<b>Atodiad 2: Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg: y categorïau ar gyfer ysgolion uwchradd</b>	<b>31</b>
<b>Atodiad 3: Data cyrhaeddiad</b>	<b>36</b>
<b>Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg</b>	<b>37</b>

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn ymateb i gais am gyngor yn llythyr cylch gorchwyl blynyddol Estyn gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar gyfer 2013-2014. Pwrpas yr adroddiad yw:

- adrodd ar ddilyniant ieithyddol disgyblion cyfnod allweddol 4 o ran astudio Cymraeg fel iaith gyntaf a chymwysterau eraill drwy'r Gymraeg;
- arfarnu effeithiolrwydd modelau cwricwlaidd a dulliau addysgu sydd ar waith mewn ysgolion dwyieithog; ac
- adnabod a rhannu arfer dda o ran addysg ddwyieithog.

Mae'r adroddiad yn seiliedig ar ymweliadau i ddeg ysgol, cyfweiliadau â chynrychiolwyr awdurdodau lleol, dadansoddiadau o ddata perfformiad ysgolion a thystiolaeth o adroddiadau arolygiadau. Gweler Atodiad 1 am fwy o wybodaeth am sail y dystiolaeth. Prif ffocws yr adroddiad yw'r awdurdodau lleol lle ceir y mwyaf o addysgu dwyieithog, sef awdurdodau Caerfyrddin, Ceredigion, Ynys Môn a Gwynedd.

Ar gyfer yr adroddiad hwn, rydym yn diffinio gwerau ddwyieithog fel un sydd yn cynnwys elfennau o'r addysgu a'r dysgu drwy'r Gymraeg a Saesneg.

## Cefndir

### Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg

Cyd-destun yr adroddiad yw cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg Gymraeg. Yn 2003, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Cynllun Gweithredu 'Iaith Pawb'.<sup>1</sup> I gefnogi'r cynllun hwn, datblygwyd 'Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg'. Deilliant 3 y strategaeth hon yw bod 'mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg'<sup>2</sup>. Yn gysylltiedig â'r nod hon, mae targedau penodol (gweler tabl 1) ar gyfer cynyddu'r gyfran o ddisgyblion sy'n dilyn eu cyrsiau TGAU yng nghyfnod allweddol 4 drwy'r Gymraeg.

**Tabl 1: Targedau Cymru cyfan ar gyfer cynyddu'r gyfran o ddisgyblion sy'n dilyn eu cyrsiau yng nghyfnod allweddol 4 drwy'r Gymraeg**

Dangosyddion	Gwaelodlin 2009	Deilliant 2013	Targed 2015	Targed 2020
Canran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) a gofrestrwyd hefyd ar gyfer o leiaf ddau gymhwyster lefel 1/2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg*	80.9%**	81.6%**	84%	88%
Canran y dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU Cymraeg (iaith gyntaf) a gofrestrwyd hefyd ar gyfer o leiaf bum cymhwyster lefel 1/2 arall drwy gyfrwng y Gymraeg*	58.4%**	55.5%**	62%	68%

*Fynhonnell – Strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg (Llywodraeth Cymru, Ebrill 2010)*

\* heb gynnwys llenyddiaeth Gymraeg; cyrsiau byr yn cyfrif fel un pwnc.

\*\* yn seiliedig ar ddata CBAC

Yn yr adroddiad hwn, defnyddir y term 'dilyniant ieithyddol' i gyfeirio at nifer y disgyblion sydd yn parhau i astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf (nid oes targedau ar gyfer hyn yn Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg) ac yn astudio pynciau eraill drwy'r Gymraeg wrth iddynt symud drwy'r cyfnodau allweddol. Mae llawer o ffactorau yn ogystal â pholisïau ysgol yn effeithio ar ddilyniant ieithyddol, gan gynnwys yr iaith a siaredir yn y cartref a faint o Gymraeg sydd yn y gymdeithas leol.

### Diffinio ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion dwyieithog

Mae Dogfen Wybodaeth Llywodraeth Cymru Rhif: 023/2007: 'Diffinio Ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg', (Llywodraeth Cymru, Hydref 2007), yn categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Gweler Atodiad 2 am fanylion.

<sup>1</sup> <http://wales.gov.uk/depc/publications/welshlanguage/iaithpawb/iaithpawbw.pdf?lang=cy>

<sup>2</sup> Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg (Llywodraeth Cymru, Ebrill 2010) Dogfen gwybodaeth rhif: 083/2010

Yn yr adroddiad hwn, yn unol â'r diffiniadau uchod, rydym yn defnyddio'r term 'ysgol cyfrwng Cymraeg' am ysgol cyfrwng Cymraeg ddynodedig lle addysgir bron pob pwnc heblaw am Saesneg drwy'r Gymraeg. Defnyddir y term 'ysgol ddwyieithog' am ysgol lle astudir nifer o bynciau yn y Gymraeg neu yn Saesneg gan wahanol ddisgyblion.

Ar lafar, defnyddir sawl term ar gyfer ysgolion lle mae'r Gymraeg yn gyfrwng addysgu, fel 'ysgolion Cymraeg', 'ysgolion dwyieithog', 'ysgolion traddodiadol Gymraeg' neu 'ysgolion naturiol Gymraeg'. Nid yw'r termau hyn yn rhoi darlun clir o'r graddau y mae'r ysgolion yn addysgu drwy'r Gymraeg neu'r Saesneg neu yn ddwyieithog. Nid yw'r categorïddio swyddogol, gan gynnwys is-gategori 2A-Ch am ysgolion dwyieithog, yn cael ei ddefnyddio yn gywir bob tro gan ysgolion ac awdurdodau lleol. Er enghraifft, mae rhai ysgolion a ddynodir yn gyfrwng Cymraeg yn cynnig llawer o bynciau drwy'r Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg i ddisgyblion.

Defnyddir y categorïau swyddogol ar y wefan [Fy Ysgol Leol](#). Caiff awdurdodau addysg ddefnyddio'r diffiniadau swyddogol yn y prosiectysau a anfonir at rieni. Er mwyn rhoi gwybodaeth lawn am y dewisiadau sydd ar gael, mae angen i gyrff llywodraethol roi manylion ym mhrosiectysau ysgolion am y ddarpariaeth ieithyddol. Os yw ysgolion yn cynnig darpariaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg ac os yw disgyblion yn cael dewis y naill neu'r llall, dylai'r prosiectysau esbonio pa ragamodau sy'n gysylltiedig â'r dewis. Mae tabl 2 yn cynnwys gwybodaeth ynghylch cefndir ieithyddol y disgyblion a'r ddarpariaeth yn yr ysgolion a ymwelwyd â hwy.

**Tabl 2: Gwybodaeth gefndirol yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy ar gyfer yr arolwg yn y flwyddyn academaidd 2012-2013**

Awdurdod lleol	Categori	Enw'r ysgol	Canran y disgyblion o gefndir teuluol Cymraeg	Canran y disgyblion sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TGAU iaith gyntaf	Canran y disgyblion sydd wedi'u cofrestru ar gyfer TGAU iaith gyntaf sydd yn cyflawni graddau A*-C
Ynys Môn	2B	Ysgol Gyfun Llangefni	68.0%	87.1%	61.5%
Ynys Môn	2B	Ysgol David Hughes	42.0%	74.2%	60.9%
Ynys Môn	2B	Ysgol Uwchradd Bodedern	65.0%	91.7%	52.5%
Gwynedd	Cyfrwng Cymraeg	Ysgol Dyffryn Ogwen Bethesda	85.0%	92.9%	69.2%
Gwynedd	Cyfrwng Cymraeg	Ysgol Dyffryn Nantlle	84.0%	96.7%	68.5%
Gwynedd	Cyfrwng Cymraeg	Ysgol Y Moelwyn	82.0%	95.5%	78.1%

Dilyniant ieithyddol a safonau'r Gymraeg mewn deg ysgol dwyieithog

Gwynedd	Cyfrwng Cymraeg	Ysgol Glan y Mor	78.0%	89.7%	90.8%
Ceredigion	2B	Ysgol Bro Pedr (Yn gynt – Ysgol Llanbedr Pont Steffan)	47.0%	56.5%	87.1%
Ceredigion	2B	Ysgol Uwchradd Aberteifi	34.0%	42.2%	65.7%
Sir Gaerfyrddin	2C	Ysgol Dyffryn Aman	39.0%	40.8%	57.3%

(a) Ffynhonnell: cyfrifiad ysgol blynyddol lefel disgybl (PLASC) 2013

(b) Ffynhonnell: Data cyflawniad TGAU 2012 gan llywodraeth Cymru

Nodyn – Daw'r wybodaeth o ran categori ieithyddol yr ysgol o'r wefan 'mylocalschool.com'. Nid yw'r categorïau hyn bob amser yn cyd-fynd â chategorïau swyddogol Llywodraeth Cymru

Roedd bron pob un o'r gwersi a arsylwyd ar gyfer yr arolygiad hwn yn wers ddwyieithog. Yn y gwersi hyn roedd cyfran amrywiol o ddisgyblion wedi eu cofrestru ar gyfer dilyn eu cysiau yn y Gymraeg neu yn Saesneg yn eistedd ochr yn ochr.

## Prif ganfyddiadau

### Astudio Cymraeg iaith gyntaf

- 1 Ar draws Cymru, mae nifer o ddisgyblion y buont yn dilyn Cymraeg fel iaith gyntaf yn yr ysgol gynradd yn peidio ag astudio Cymraeg fel iaith gyntaf ar ôl trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. O ganlyniad, nid yw'r disgyblion hyn yn datblygu eu medrau yn y Gymraeg hyd eithaf eu gallu a chaiff ychydig o ddisgyblion sydd wedi astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf eu cofrestru'n amhriodol ar gyfer yr arholiad TGAU ail-iaith Cymraeg. Mae cyfran y disgyblion sydd yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf yn disgyn o 19.8% yng nghyfnod allweddol 2, i 16.3% yng nghyfnod allweddol 3, ac yna i 15.3% yng nghyfnod allweddol 4.
- 2 Yn awdurdodau Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Chaerfyrddin mae'r cyfrannau uchaf o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 sy'n astudio Cymraeg fel iaith gyntaf. Yn yr awdurdodau hyn hefyd mae'r gostyngiad mwyaf yn y nifer sy'n astudio Cymraeg iaith gyntaf o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 4 dros y chwe blynedd diwethaf. Mae'r gostyngiad oddeutu un o bob pum disgybl neu fwy.

### Dilyn cyrsiau eraill drwy'r Gymraeg

- 3 Dim ond mewn un o bob tair ysgol ddwyieithog y mae rhan fwyaf y disgyblion sydd yn astudio Cymraeg fel iaith gyntaf yn dilyn dau gwrs TGAU ychwanegol neu fwy drwy'r Gymraeg. Dim ond mewn ychydig iawn o ysgolion dwyieithog y mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dilyn pum cwrs TGAU ychwanegol neu fwy drwy'r Gymraeg.
- 4 Mae'r arolwg wedi ymweld ag ysgolion yng Nghaerfyrddin, Ceredigion, Ynys Môn a Gwynedd. Awdurdodau lleol Ceredigion ac Ynys Môn sydd â'r cyfrannau isaf o ddisgyblion Cymraeg iaith gyntaf (tua 20%) yn dilyn pum cwrs TGAU ychwanegol drwy'r Gymraeg. Mae tua hanner y disgyblion Cymraeg iaith gyntaf yn dilyn pum cwrs TGAU ychwanegol drwy'r Gymraeg yng Ngwynedd a Chaerfyrddin.

### Safonau Cymraeg

- 5 Yn yr ysgolion dwyieithog sydd â'r cyfrannau uchaf o ddisgyblion yn dilyn dau gwrs TGAU ychwanegol neu fwy drwy'r Gymraeg, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn rhugl mewn ystod o gyd-destunau. Yn gyffredinol, y disgyblion sydd yn dilyn y mwyaf o gyrsiau TGAU ychwanegol drwy'r Gymraeg sydd â gallu gorau i drafod ac ysgrifennu yn y Gymraeg.
- 6 Ar y cyfan, nid oes gan ddisgyblion yr ysgolion dwyieithog sydd â chyfrannau isel yn dilyn cyrsiau drwy'r Gymraeg fedrau siarad ac ysgrifennu Cymraeg digon da. Mae gan leiafrif y disgyblion yn yr ysgolion hyn afael gadarn ar y Gymraeg, ond mae llawer yn defnyddio gormod o eiriau Saesneg wrth siarad ac ysgrifennu. Nid yw'r mwyaf yn hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg ar lafar neu yn ysgrifenedig oherwydd diffyg cyfleoedd i ddefnyddio'r iaith mewn ystod o gyd-destunau ar draws y cwricwlwm.



## **Addysgu dwyieithog**

- 7 Yn y rhan fwyaf o'r gwersi dwyieithog a arsylwyd, mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dealltwriaeth a'u medrau pwnc. Yn y gwersi hyn, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'r defnydd a wneir o'r Gymraeg gan y disgyblion. Yn y mwyafrif o'r gwersi, mae'r athrawon yn cyflwyno drwy'r Gymraeg yn bennaf, gan aralleirio syniadau creiddiol neu gymhleth drwy'r Saesneg i wneud yn siwr bod pawb yn deall. Mewn lleiafrif o wersi dwyieithog, mae'r athrawon yn ailadrodd popeth drwy'r Gymraeg a'r Saesneg. Mae hyn yn arafu tempo'r wers yn ddianghenraid.
- 8 Mae disgyblion yn y gwersi dwyieithog a arsylwyd yn aml yn datblygu eu dealltwriaeth bynciol yn dda wrth ddefnyddio adnoddau cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Mae athrawon yn sicrhau bod y disgyblion yn datblygu ymwybyddiaeth dda o'r termau pwnc-benodol yn y ddwy iaith. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar hyfedredd ieithyddol y disgyblion ac ar eu hyder wrth drafod ac ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Dim ond mewn ychydig o wersi y mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau trawsieithu yn ddigon gofalus.
- 9 Mewn lleiafrif o wersi dwyieithog a arsylwyd, yn bennaf yn yr ysgolion ble mae canrannau is o ddisgyblion yn dilyn eu cyrsiau yn y Gymraeg, nid yw disgwyliadau athrawon o'r hyn y gall disgyblion ei gyflawni wrth astudio pynciau drwy'r Gymraeg yn ddigon uchel. Nid yw'r athrawon hyn yn hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg yn addysgol yn ddigon effeithiol, ac mae'r disgyblion yn cael y camargraff bod astudio pynciau drwy'r Gymraeg yn medru andwyo eu llwyddiant academaidd. Mewn gwirionedd, mae'r disgyblion sy'n dilyn eu cyrsiau TGAU drwy'r Gymraeg yn cyflawni cystal os nad yn well na rhai'r sy'n dilyn y rhan fwyaf o'u cyrsiau TGAU drwy'r Saesneg.
- 10 Mae mwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy yn canolbwyntio ar wella llythrennedd disgyblion ar draws y pynciau a astudiant ac mae polisi marcio'r ysgolion yn rhoi sylw priodol i faterion ieithyddol. Fodd bynnag, mae lleiafrif o athrawon nad ydynt yn dilyn y polisiâu hyn wrth gywiro gwaith disgyblion.

## **Arweinyddiaeth**

- 11 Mae gan arweinwyr yn yr ychydig ysgolion dwyieithog sy'n sicrhau bod cyfran uchel o ddisgyblion yn astudio pynciau ychwanegol drwy'r Gymraeg, ddisgwyliadau uchel o allu disgyblion i gyflawni'n dda yn y pynciau hynny. Maent yn gosod targedau uchelgeisiol i sicrhau dilyniant ieithyddol ac yn cynllunio'n strategol i'w cyflawni. Mae gan yr ysgolion hyn berthynas agos â rhieni ac maent yn cyflwyno manteision parhau i astudio pynciau drwy'r Gymraeg yn glir iddynt. Maent yn cynllunio'n ofalus i ddarparu arlwy ddeniadol a chyfoethog o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol yn y Gymraeg ac yn sicrhau cyfleoedd eang i ddisgyblion ddatblygu eu medrau iaith ar draws y cwricwlwm. Maent hefyd yn sicrhau bod adnoddau cyfrwng Saesneg ar gael i ddisgyblion prin eu Cymraeg.
- 12 Nid yw datblygu medrau Cymraeg yn flaenoriaeth ysgol gyfan mewn lleiafrif o ysgolion dwyieithog yr ymwelwyd â hwy. Nid ydynt yn cynnig ystod digon eang o gyrsiau drwy'r Gymraeg yng nghyfnod allweddol 4. Mae rhai athrawon yn darbwyllo disgyblion yn amhriodol i astudio pynciau drwy'r Saesneg. Nid yw lleiafrif o ysgolion dwyieithog yn cynllunio'n ddigon effeithiol er mwyn hyrwyddo defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg.

### **Staffio ac adnoddau**

- 13 Mae ysgolion dwyieithog yr ymwelwyd â nhw yn wynebu her i recriwtio staff sydd yn hyderus ac yn alluog i addysgu eu pwnc drwy'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r hyfforddiant a'r gefnogaeth sydd ar gael yn yr ysgol neu ar gyrsiau sabothol yn datblygu medrau ieithyddol Cymraeg staff yn effeithiol ar y cyfan.
- 14 Mae llawer o'r ysgolion yn cynnal sesiynau hyfforddiant mewn swydd i fireinio'u strategaethau addysgu dwyieithog. Dim ond ychydig o ysgolion dwyieithog sydd wedi datblygu cysylltiadau ag ysgolion eraill er mwyn rhannu arfer dda neu hwyluso'r broses o lunio adnoddau Cymraeg.
- 15 Mae diffygion mewn adnoddau cyfrwng Cymraeg. Er enghraifft, mae ieithwedd papurau arholiadau cyfrwng Cymraeg yn tueddu bod yn fwy cymhleth na'r papurau cyfatebol cyfrwng Saesneg ac mae hyn weithiau'n peri trafferth i ddisgyblion ddeall y cwestiynau. Ar adegau, nid yw ystyr y cwestiynau yn y Gymraeg yr un fath â'r hyn sydd yn y fersiwn Saesneg. Yn ogystal â hyn, nid yw'r defnydd o dermau pwnc-benodol Cymraeg gan fyrrddau arholi bob amser yn gyson o flwyddyn i flwyddyn. Nid yw'r holl adnoddau addysgu sydd yn bodoli yn yr 'Hwb'<sup>3</sup> ar gael yn Gymraeg.

### **Awdurdodau**

- 16 Gwynedd yw'r unig awdurdod lleol sydd â disgwyladau digon uchel o ysgolion i gynyddu'r gyfran o ddisgyblion sy'n parhau i astudio'u pynciau drwy'r Gymraeg yng nghyfnod allweddol 4 ac sy'n cefnogi ysgolion i gyflawni targedau uchelgeisiol. Nid yw mynd i'r afael â'r diffyg dilyniant hyn yn flaenoriaeth i'r mwyafrif o awdurdodau lleol.

---

<sup>3</sup> Llwyfan Dysgu i Gymru gyfan sydd wedi'i anelu at gefnogi a hybu athrawon i weithredu mewn amgylchedd digidol a rhannu eu harfer ac adnoddau digidol.

## Argymhellion

### Dylai ysgolion dwyieithog:

- A1 osod targedau i gynyddu'r gyfran o ddisgyblion cyfnod allweddol 4 sydd yn dal i astudio Cymraeg iaith gyntaf ac yn dilyn eu cyrsiau drwy'r Gymraeg;
- A2 ehangu'r arlwy o gymwysterau maent yn eu cynnig drwy'r Gymraeg;
- A3 esbonio manteision dilyn cyrsiau drwy'r Gymraeg i ddisgyblion a rhieni a sicrhau bod rhieni yn cael eu cynnwys fwy yn addysg eu plant;
- A4 cydweithio gydag ysgolion eraill i gynhyrchu adnoddau dysgu Cymraeg, ac i drafod a rhannu strategaethau addysgu dwyieithog;
- A5 sicrhau bod datblygu medrau Cymraeg disgyblion yn flaenoriaeth ysgol-gyfan a chynllunio'n fwiadus er mwyn hyrwyddo defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg;
- A6 annog athrawon ar draws y pynciau i hyrwyddo defnydd disgyblion o'r Gymraeg yn y gwersi a thu hwnt; a
- A7 sicrhau bod athrawon ar draws y pynciau yn talu sylw i gywirdeb ac ansawdd mynegiant disgyblion yn y Gymraeg.

### Dylai awdurdodau lleol:

- A8 olrhain fesul ysgol y cyfrannau o ddisgyblion cyfnod allweddol 4 sy'n dilyn cyrsiau drwy'r Gymraeg a gosod targedau i gynyddu hyn yn ôl amcanion eu strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg; a
- A9 cynorthwyo ysgolion i drafod, datblygu a rhannu'r strategaethau addysgu dwyieithog mwyaf effeithiol.

### Dylai Llywodraeth Cymru:

- A10 sicrhau bod adnoddau addysgol o ansawdd uchel Cymraeg ar gael ym mhob pwnc ar yr 'Hwb';
- A11 codi ymwybyddiaeth o fanteision dwyieithrwydd ac o barhau i astudio pynciau drwy'r Gymraeg; a
- A12 sicrhau bod byrddau arholi yn cyhoeddi dogfennau arweiniad a chynlluniau marcio i athrawon yn y Gymraeg ac yn paratoi cwestiynau mewn ieithwedd glir yn eu papurau arholiadau cyfrwng Cymraeg.

## 1 Dilyniant ieithyddol a rôl yr awdurdod lleol

### Cyfrannau'r disgyblion sy'n astudio Cymraeg fel iaith gyntaf

- 17 Mae **tabl 3** yn dangos canran y disgyblion sy'n astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf wrth symud o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 4. Yn 2008, roedd 19.8% o ddisgyblion yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf yng Nghymru yng nghyfnod allweddol 2. Erbyn i'r garfan hon symud i gyfnod allweddol 3 yn 2011, bu gostyngiad i 16.3%. Wrth i'r disgyblion hyn symud i gyfnod allweddol 4 yn 2013, gwelwyd gostyngiad pellach i 15.3%.
- 18 Mae amrywiad eang yng nghyfran y disgyblion sy'n astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf ym mhob cyfnod allweddol rhwng awdurdodau lleol Cymru. Mae'r canran yn gostwng ym mron pob awdurdod lleol. Mae gan awdurdodau lleol Gwynedd, Ynys Môn a Cheredigion gyfrannau sylweddol uwch o ddisgyblion yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf ym mhob cyfnod allweddol o gymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru.

**Tabl 3: Canrannau'r disgyblion sy'n astudio Cymraeg fel iaith gyntaf y garfan o ddisgyblion a oedd yn 11 oed yn 2008**

Ardal	Cyfnod allweddol 2 2008*	Cyfnod allweddol 3 2011*	Cyfnod allweddol 4 2013*	Canran y boblogaeth sirol sy'n medru'r Gymraeg**
Gwynedd	99.8%	83.0%	80.0%	65.4%
Ynys Môn	96.9%	63.3%	67.5%	57.2%
Ceredigion	73.5%	61.2%	56.6%	47.3%
Sir Gaerfyrddin	48.6%	35.4%	33.0%	43.9%
Sir Ddinbych	21.8%	20.7%	20.3%	24.6%
Conwy	21.2%	16.4%	15.6%	27.4%
Sir Benfro	17.4%	12.7%	12.3%	19.2%
Rhondda Cynon Taf	16.2%	17.0%	15.8%	12.3%
Castell Nedd a Phort Talbot	15.3%	9.6%	9.6%	15.3%
Powys	14.2%	12.2%	11.3%	18.6%
Merthyr Tudful	14.1%	0.0%	0.0%	8.9%
Penybont-ar-Ogwr	11.9%	6.9%	6.1%	9.7%
Caerdydd	10.8%	10.7%	10.3%	11.1%
Caerffili	9.8%	9.4%	9.3%	11.2%
Abertawe	9.1%	9.0%	8.8%	11.4%
Bro Morgannwg	8.5%	7.5%	7.4%	10.8%
Sir y Fflint	8.3%	6.0%	6.0%	13.2%
Wrecsam	8.0%	8.9%	8.2%	12.9%
Blaenau Gwent	5.2%	0.0%	0.0%	7.8%

Torfaen	5.1%	11.5%	10.7%	9.8%
Sir Fynwy	2.6%	0.0%	0.0%	9.9%
Casnewydd	2.5%	0.0%	0.0%	9.3%
<b>Cymru gyfan</b>	<b>19.8%</b>	<b>16.3%</b>	<b>15.3%</b>	<b>19.0%</b>

*\*Ffynhonnell : llywodraeth Cymru*

\*\*Data cyfrifiad cenedlaethol 2011.


Nodyn: mewn rhai ardaloedd, mae disgyblion sy'n dilyn eu haddysg drwy'r Gymraeg yng nghyfnod allweddol 2 yn symud i ardaloedd eraill i barhau ag addysg Gymraeg yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4.

- 19 Mae'r gostyngiad mwyaf yng nghyfrannau'r disgyblion sydd yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf erbyn cyfnod allweddol 4 yn yr awdurdodau lleol lle ceir y defnydd mwyaf o'r iaith fel cyfrwng dysgu yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3, sef Gwynedd, Ynys Môn a Cheredigion.

### **Cyfrannau'r disgyblion sy'n astudio pynciau ychwanegol drwy'r Gymraeg**

- 20 Yn 2013, cofrestrwyd 81.6% o ddisgyblion TGAU Cymraeg iaith gyntaf ar gyfer o leiaf ddau gymhwyster arall drwy'r Gymraeg. Mae'r ffigur hyn ychydig yn is na'r targed cenedlaethol o 84% a osodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2015. Yn 2013, y ganran a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf bum cymhwyster arall drwy'r Gymraeg oedd 55.5%. Mae'r ffigur hwn hefyd yn is na'r targed cenedlaethol o 62%.
- 21 Fel y gwelir yn siart 1, mae'r gyfran o ddisgyblion sy'n dilyn o leiaf ddau gwrs lefel 1 neu lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg, yn sylweddol uwch yn yr ardaloedd lle ceir ysgolion cyfrwng Cymraeg, er enghraifft Caerdydd, Bro Morgannwg a Wreccsam, o gymharu ag ardaloedd lle ceir ysgolion dwyieithog. Mae'r gyfran o ddisgyblion sy'n dilyn y llwybr hwn yn amrywio'n fawr rhwng yr awdurdodau lleol. Yng Ngwynedd, mae tua tri-chwarter o'r disgyblion yn dilyn y llwybr hwn ac yn Sir Gaerfyrddin mae'r gyfran hon ychydig yn uwch na 60%. Yn awdurdodau lleol Ceredigion ac Ynys Môn, ychydig dros hanner y disgyblion sy'n dilyn y llwybr hwn. Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli'r cyfrannau isaf ar draws Cymru o ddisgyblion Cymraeg iaith gyntaf sy'n dilyn o leiaf ddau gwrs arall drwy'r Gymraeg.

**Siart 1**




*Ffynhonnell : llywodraeth Cymru*

\*Nodyn – cyfrifwyd y canran yn y siart uchod gan ystyried y disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer TGAU iaith gyntaf yn y Gymraeg yn 2012. Nid yw 5 awdurdod lleol wedi'u cynnwys oherwydd roedd llai na phump disgybl wedi'u cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg

- 22 Mae **siart 2** yn dangos y gwahaniaeth sylweddol yng nghyfran y disgyblion sydd yn dilyn o leiaf bum cwrs lefel 1 neu lefel 2 trwy gyfrwng y Gymraeg o gymharu â'r niferoedd sydd yn dilyn dau gwrs trwy gyfrwng y Gymraeg. Gwelir yr amrywiad mwyaf yn y cyfrannau hyn yn yr ardaloedd lle ceir cyfran uchel o ysgolion dwyieithog. Yng Ngwynedd mae ychydig dros hanner o'r disgyblion yn dilyn o leiaf bum cwrs lefel 1 neu lefel 2 trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn Sir Gaerfyrddin, mae ychydig llai na hanner o'r disgyblion yn dilyn y trywydd hwn.
- 23 Mae gan awdurdodau lleol Ynys Môn a Cheredigion y cyfrannau isaf o ddisgyblion Cymraeg iaith gyntaf yn dilyn o leiaf bum cwrs lefel 1 neu lefel 2 trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nghymru.

## Siart 2



\*Ffynhonnell : llywodraeth Cymru

\*Nodyn – cyfrifwyd y canran yn y siart uchod gan ystyried y disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer TGAU iaith gyntaf yn y Gymraeg yn 2012. Nid yw 5 awdurdod lleol wedi'u cynnwys oherwydd roedd llai na phump disgybl wedi'u cofrestru ar gyfer TGAU Cymraeg

### **Cyfrannau'r disgyblion sy'n yn astudio pynciau arall drwy'r Gymraeg yn awdurdodau Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin**

- 24 Mae'r siartiau uchod yn dangos bod amrywiad mawr yng nghyfran y disgyblion sydd yn dilyn eu cyrsiau drwy'r Gymraeg oddi mewn ac ar draws yr ardaloedd lle mae cyfran uchel o ysgolion dwyieithog. Dim ond mewn ychydig o'r ysgolion yn ardaloedd hyn y mae pob disgybl yn dewis mwy na dau gwrs yng nghyfnod allweddol 4 drwy'r Gymraeg. Yn ogystal, dim ond mewn ychydig iawn o ysgolion dwyieithog y mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dilyn mwy na phum cwrs cyfnod allweddol 4 drwy'r Gymraeg.
- 25 Yn yr ardaloedd hyn, mae cyfran y disgyblion sydd yn dilyn o leiaf ddau gwrs yng nghyfnod allweddol 4 drwy'r Gymraeg yn amrywio o 0% i 100%. Dim ond 31% o'r ysgolion hyn sy'n llwyddo i sicrhau bod mwy na 90% o'u disgyblion yn dilyn y llwybr hwn. Mewn 26% o'r ysgolion hyn, mae llai na 10% o'r disgyblion yn dilyn y llwybr hwn.
- 26 Mae cyfran y disgyblion sydd yn dewis o leiaf bum cwrs yng nghyfnod allweddol 4

drwy'r Gymraeg yn yr ardaloedd hyn, yn amrywio o 0% i 93%. Dim ond 23% o'r ysgolion sydd â mwy na 70% o'u disgyblion yn dilyn y llwybr hwn. Mewn 60% o ysgolion dwyieithog, mae llai na 40% o ddisgyblion yn astudio o leiaf bum cwrs yng nghyfnod allweddol 4 drwy'r Gymraeg.

### **Rôl yr awdurdod lleol**

- 27 Mae disgwyl ar i bob awdurdod lleol yng Nghymru gynllunio er mwyn cyflawni deilliannau a thargedau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg trwy gyflwyno cynlluniau strategol y Gymraeg mewn addysg. Fodd bynnag, mae cryn amrywiaeth yng ngweledigaeth a disgwyliadau'r awdurdodau lleol yn yr ardaloedd lle mae cyfran uchel o ysgolion dwyieithog. Mae gan lawer ohonynt amcanion priodol ar gyfer cynyddu nifer y disgyblion sy'n dilyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3. Nid yw llawer o awdurdodau lleol yn gosod blaenoriaeth ar gyfer cynyddu'r gyfran o ddisgyblion sy'n dilyn cyrsiau ar wahân i Gymraeg fel iaith gyntaf drwy'r Gymraeg yng nghyfnod allweddol 4. Er bod hanner yr awdurdodau lleol yn olrhain niferoedd y cyrsiau cyfrwng Cymraeg yng nghyfnod allweddol 4, dim ond un ohonynt, sef Gwynedd, sy'n gosod targedau i ysgolion unigol i gynyddu nifer y disgyblion sy'n eu dilyn.
- 28 Mae gan yr awdurdodau lleol hyn ddisgwyliadau gwahanol o ba ddisgyblion ddylai astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Yng Ngwynedd ac Ynys Môn, disgwylir i ddisgyblion sydd wedi cyrraedd o leiaf lefel 3 mewn Cymraeg fel iaith gyntaf ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, barhau i astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf yng nghyfnodau allweddol 3 a 4. Yng Ngheredigion a Sir Gaerfyrddin, y disgwyliad yw bod unrhyw ddisgybl a oedd yn dilyn Cymraeg fel iaith gyntaf yng nghyfnod allweddol 2 yn parhau ar y trywydd hwn yng nghyfnod allweddol 3.

### **Astudiaeth achos: Cynllunio er mwyn cynyddu nifer yr ysgolion sy'n darparu cyrsiau drwy'r Gymraeg yng nghyfnod allweddol 4**

#### **Awdurdod lleol Gwynedd**

Nod uchelgeisiol yr awdurdod, a amlinellir yn ei strategaeth ar gyfer hybu dwyieithrwydd, yw i 'sicrhau bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar ddwyieithrwydd cytbwys oed-berthnasol er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni'. Mae'r awdurdod yn gosod pwyslais cryf ar ddatblygiad y Gymraeg yn yr ysgolion cynradd ond hefyd yn gosod disgwyliadau clir ar gyfer ysgolion uwchradd i sicrhau dilyniant ieithyddol cadarn.

Mae gan yr awdurdod amcanion uchelgeisiol i gynyddu'r gyfran o ddisgyblion sy'n dilyn eu pynciau yng nghyfnod allweddol 4 drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r awdurdod yn casglu data manwl ynghylch hyn o bob ysgol uwchradd yn y sir a hefyd yn monitro cyfrwng cyrsiau a gyflwynir ar y cyd rhwng darparwyr mewn partneriaeth. Mae'r awdurdod yn gosod targedau uchelgeisiol i bob ysgol i gynyddu'r ffigyrau hyn yn flynyddol.

Mae'r awdurdod hefyd yn rhoi cefnogaeth gref i gynorthwyo ysgolion i gyrraedd eu targedau ieithyddol, er enghraifft trwy:

- gynnig sesiynau gloywi iaith i athrawon;
- cydweithio ag ysgolion i gynnal gweithgareddau sy'n codi ymwybyddiaeth



ddisgyblion o werth y Gymraeg;

- arfogi ysgolion i gyflwyno manteision y Gymraeg i'r rhieni; a thrwy; a
- rannu arferion da ac adnoddau addysgu Cymraeg defnyddiol ymhlith ysgolion y Sir.

O ganlyniad i'r gweithgareddau uchod a chefnogaeth gan y rhan fwyaf o ysgolion yn y Sir, mae'r awdurdod wedi llwyddo i gynyddu'r gyfran o ddisgyblion ym Mlwyddyn 11 sy'n dilyn pump neu fwy o'u cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg o 59% yn 2008 i 71% yn 2013.

## 2 Trefniadaeth gwricwlaidd

### Modelau cwricwlwm

- 29 Mae'n bosibl categoreiddio trefniadaeth gwricwlaidd dwyieithog yn yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw fel a ganlyn:
- A grwpiau cyfrwng Cymraeg a Saesneg mewn dosbarthiadau ar wahân;
  - B pawb ar gwrs penodol yn cofrestru i sefyll arholiad drwy'r Gymraeg, ond rhai unedau yn cael eu cyflwyno yn Saesneg; a
  - C disgyblion sydd wedi eu cofrestru i sefyll arholiadau drwy'r Gymraeg a Saesneg o fewn yr un dosbarth a'r addysgu yn ddwyieithog.
- 30 Model A – Mewn lleiafrif o'r ysgolion, caiff disgyblion ddewis astudio pynciau penodol mewn grwpiau ieithyddol ar wahân. Yn yr ysgolion hyn, mae'r dewis ieithyddol yn debyg o fod ym mhynciau'r dyniaethau. Nid yw llawer o'r ysgolion hyn yn cynnal grwpiau ieithyddol ar wahân yn y gwyddorau, er bod y disgyblion sydd yn dewis sefyll eu harholiad drwy'r Gymraeg yn cyflawni cystal os nad yn well na'r rhai sydd yn astudio'r pwnc yn Saesneg (gweler atodiad 3). Mae gan y model hwn y fantais o fod yn gymharol rhwydd i'w gynnig. Mae'r disgyblion sydd yn derbyn eu haddysg yn y Gymraeg yn derbyn ystod eang o gyfleoedd er mwyn datblygu eu medrau cyfathrebu Cymraeg. Fodd bynnag, gall niferoedd bychain o ddisgyblion mewn grwpiau penodol arwain at ddiffyg cost-effeithiolrwydd. Nid yw'r disgyblion sy'n dewis dilyn eu cyrsiau yn Saesneg yn cael cyfle i ymarfer a datblygu eu Cymraeg.
- 31 Model B – Mewn ychydig o'r ysgolion, bydd disgyblion wedi'u cofrestru er mwyn sefyll eu harholiad drwy'r Gymraeg ond bydd rhai unedau yn cael eu cyflwyno drwy'r Gymraeg ac eraill yn Saesneg. Ceir y model hwn mewn ysgolion lle mae cyfran uchel o'r disgyblion yn dod o gartrefi a chymunedau lle siaredir y Gymraeg yn bennaf.
- 32 Model C – Yn y rhan fwyaf o'r ysgolion, mae disgyblion o fewn yr un dosbarth yn sefyll eu harholiadau yn y Gymraeg a Saesneg. Mae gan y model hwn y fantais o fod yn gost-effeithiol. Gweler pennod 3 am ddulliau addysgu dwyieithog a phennod 4 am fwy o fanylion o ran effaith y modelau ar safonau ieithyddol.

## Ffactorau sy'n hybu dilyniant

- 33 Yn yr ysgolion sydd yn llwyddo i sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn astudio'u pynciau drwy'r Gymraeg, mae cyfran uchel o'r athrawon a'r cynorthwyr yn rhugl a hyderus wrth gyflwyno ac addysgu yn y Gymraeg. Mae'r staff yn yr ysgolion hyn yn gefnogol i addysg Gymraeg ac yn cymryd cyfrifoldeb dros wella'u medrau ieithyddol eu hunain. Gwna'r athrawon yn yr ysgolion hyn ddefnydd buddiol o adnoddau Cymraeg o'r 'Hwb' (gwefan addysg Llywodraeth Cymru) a byrddau arholi.
- 34 Mae'r ysgolion sy'n llwyddo i sicrhau bod nifer uchel o ddisgyblion yn astudio'u pynciau drwy'r Gymraeg yn sicrhau bod y cyrsiau sydd yn cael eu cynnig mewn partneriaeth â darparwyr eraill hefyd ar gael yn y Gymraeg. Mae'r ysgolion hyn yn darparu arlwy eang o gyrsiau galwedigaethol a chyffredinol drwy'r Gymraeg. Nid oes llawer o adnoddau ar gyfer cyrsiau galwedigaethol ar gael yn y Gymraeg ond mae'r adrannau yn yr ysgolion hyn yn cyfieithu'r ddeunyddiau ac yn paratoi adnoddau dysgu cyfrwng Cymraeg o ansawdd uchel. Yn y mwyafrif o'r ysgolion hyn, mae amrediad eang o adnoddau dysgu defnyddiol ar gael i'r disgyblion yn electronig drwy wefan yr ysgol.
- 35 Mewn lleiafrif o ysgolion dwyieithog, yn enwedig y rhai ble mae cyfran uchel o'r disgyblion yn dilyn y Gymraeg fel ail iaith, nid oes digon o staff sydd yn medru addysgu drwy'r Gymraeg. Hefyd, nid yw'r holl staff yn ymroi i wella eu gallu i addysgu drwy'r Gymraeg. Nid yw'r holl adrannau yn cynnig ystod deniadol o gyrsiau drwy'r Gymraeg.
- 36 Mewn ychydig o ysgolion, caiff ddisgyblion sydd wedi astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3, eu cofrestru'n amhriodol ar gyfer y cwrs Cymraeg TGAU ail iaith.
- 37 Mae llawer o ysgolion dwyieithog yn darparu ystod eang o weithgareddau allgyrsiol i annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau diwylliannol fel sioeau cerdd, dramâu ac amrediad o weithgareddau corfforol. Mae mwyafrif yr ysgolion hyn yn cydweithio'n agos â mudiadau fel Mentrau Iaith Lleol yr Urdd a chlybiau'r ffermwyr ifanc. Caiff y partneriaethau hyn effaith gadarnhaol ar ddefnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan y disgyblion<sup>4</sup>. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o ysgolion dwyieithog yn cynllunio'n ddigon effeithiol er mwyn hyrwyddo defnydd cymdeithasol yr iaith Gymraeg.
- 38 Mae staff yn yr ysgolion dwyieithog yr ymwelwyd â hwy yn wynebu sawl rhwystr wrth gyflwyno cyrsiau drwy'r Gymraeg, yn enwedig o ran adnoddau, er enghraifft:
- nid yw byrddau arholi bob amser yn darparu deunyddiau'n ddwyieithog, yn enwedig wrth gyflwyno cynlluniau marcio;
  - mae iaith yr arholiadau'n dueddol o fod yn fwy dwys yn y Gymraeg nac yn Saesneg sydd yn peri trafferth i ychydig o ddisgyblion ddeall y cwestiynau'n gywir;

<sup>4</sup> Mae Llywodraeth Cymru'n ceisio hyrwyddo defnydd cymdeithasol yr iaith Gymraeg ymysg pobl ifanc drwy'r prosiect cefnogi arferion iaith.

<http://wales.gov.uk/about/cabinet/decisions/dr2012/octdec/welsh/la3102/?skip=1&lang=cy>

- nid yw'r defnydd o dermau gan fyrddau arholi bob amser yn gyson o flwyddyn i flwyddyn yn y papurau arholiad Cymraeg ac nid ydynt bob amser yn cyflwyno'r un ystyr â'r fersiynau Saesneg; ac
- nid yw'r holl adnoddau addysgu sydd yn bodoli yn yr 'Hwb' ar gael yn y Gymraeg.

- 39 Ychydig iawn o ysgolion sydd yn cydweithio gydag ysgolion eraill yn effeithiol i leihau'r baich o gynhyrchu adnoddau dwyieithog neu i drafod methodoleg addysgu dwyieithog.

### **Astudiaeth achos: Rhannu adnodd cyfieithu er mwyn llunio adnoddau dysgu dwyieithog**

#### **Ysgol Gyfun Llangefni ac Ysgol David Hughes**

Yn 2007, penderfynodd y ddwy ysgol i ddatblygu partneriaeth i rannu costau cyfieithu adnoddau. O ganlyniad, mae'r ysgolion yn cyflogi cyfieithydd ar y cyd sydd yn gweithio am ddau ddiwrnod yr wythnos yn Ysgol David Hughes a thridiau yn Ysgol Llangefni.

Caiff unrhyw aelod o staff ddefnyddio'r gwasanaeth ac mae'r ddwy ysgol wedi llwyddo i ehangu ystod y deunydd addysgu cyfrwng Cymraeg. O ganlyniad i'r trefniadau hyn:

- mae safon y Gymraeg yn yr adnoddau addysgu yn gyson uchel ;
- nid yw cyflwyno cyrsiau drwy'r Gymraeg yn ychwanegu at faich gwaith yr athrawon; ac
- mae'r ddwy ysgol yn medru rhannu adnoddau sydd yn ategu at gost-effeithiolrwydd y bartneriaeth.

#### **Rôl yr awdurdod lleol**

- 40 Mae disgwyl ar i bob awdurdod lleol yng Nghymru gynllunio er mwyn cyflawni deilliannau a thargedau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg trwy gyflwyno cynlluniau strategol y Gymraeg mewn addysg. Fodd bynnag, mae cryn amrywiaeth yng ngweledigaeth a disgwyliadau'r awdurdodau lleol yn yr ardaloedd lle mae cyfran uchel o ysgolion dwyieithog. Mae gan lawer ohonynt amcanion priodol ar gyfer cynyddu nifer y disgyblion sy'n dilyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3. Nid yw llawer o awdurdodau lleol yn gosod blaenoriaeth ar gyfer cynyddu'r gyfran o ddisgyblion sy'n dilyn cyrsiau ar wahân i Gymraeg fel iaith gyntaf drwy'r Gymraeg yng nghyfnod allweddol 4. Er bod hanner yr awdurdodau lleol yn olrhain niferoedd y cyrsiau cyfrwng Cymraeg yng nghyfnod allweddol 4, nid yw llawer ohonynt yn gosod targedau i ysgolion unigol i gynyddu nifer y disgyblion sy'n eu dilyn.
- 41 Mae gan yr awdurdodau lleol hyn ddisgwyliadau gwahanol o ba ddisgyblion ddylai astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Yng Ngwynedd ac Ynys Môn, disgwylir i ddisgyblion sydd wedi cyrraedd o leiaf lefel 3 mewn Cymraeg fel iaith gyntaf ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, barhau i astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf yng nghyfnodau allweddol 3 a 4. Yng Ngheredigion a Sir

Gaerfyrddin, y disgwyliad yw bod unrhyw ddisgybl a oedd yn dilyn Cymraeg fel iaith gyntaf yng nghyfnod allweddol 2 yn parhau ar y trywydd hwn yng nghyfnod allweddol 3

### 3 Addysgu dwyieithog

- 42 Mae amryw o strategaethau addysgu ar waith mewn ysgolion dwyieithog. Mae'n bosibl categorïddio dulliau addysgu athrawon yn ôl patrwm trefniadaeth y cwricwlwm dwyieithog fel a ganlyn:
- cyflwyno drwy un iaith yn unig, ond deunyddiau ar gael yn y ddwy iaith;
  - cyflwyno'n bennaf yn y Gymraeg ond yn aralleirio syniadau creiddiol neu gymhleth drwy'r Saesneg; ac
  - ailadrodd popeth gair-am-air yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- 43 Ym mron pob un o'r gwersi a arsylwyd, roedd cyfran o'r disgyblion wedi eu cofrestru ar gyfer dilyn eu cyrsiau yn Saesneg ac eraill yn Gymraeg. Roedd y cyfrannau hyn yn amrywio o wersi lle'r oedd bron pob disgybl yn dilyn y cwrs yn y Gymraeg i wersi ble roedd ychydig iawn yn gwneud hynny.
- 44 Yn y mwyafrif o'r gwersi a arsylwyd, defnyddia'r athrawon y Gymraeg yn bennaf i gyflwyno testunau, gan aralleirio syniadau cymhleth drwy'r Saesneg i sicrhau dealltwriaeth pawb, beth bynnag eu hyfedredd yn y Gymraeg. Mae'r athrawon yn darparu deunyddiau dwyieithog i'r disgyblion ac yn cynnig cymorth ychwanegol wrth symud o amgylch y dosbarth. Yn y gwersi hyn, mae'r athrawon yn cyfeirio'r disgyblion yn briodol at eiriaduron yn hytrach nag ymateb i bob cais am gyfieithiad. O ganlyniad, gwna'r disgyblion gynnydd da yn eu gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg. Maent hefyd yn datblygu ymwybyddiaeth gadarn o'r termau pwnc-benodol yn y ddwy iaith, yn ogystal â'u medrau a'u dealltwriaeth bynciol.
- 45 Mewn ychydig o wersi, yn bennaf yn yr ysgolion â chyfrannau uchel o ddisgyblion yn dilyn y Gymraeg fel ail iaith, mae'r athrawon yn ailadrodd popeth gair-am-air yn y Gymraeg a'r Saesneg. Er bod hyn yn rhoi cyfle i'r disgyblion glywed y ddwy iaith, mae'r arddull hon yn arafu tempo'r wers ac nid yw o reidrwydd yn datblygu medrau ieithyddol disgyblion gan eu bod yn gwrandao'n fwy astud ar yr iaith sydd fwyaf cyfarwydd iddynt.
- 46 Mewn ychydig iawn o'r gwersi, mae'r athrawon yn addysgu'n bron yn gyfan gwbl yn y Gymraeg. Yn y gwersi hyn, mae'r athrawon yn fodolau iaith da iawn ac yn arddangos disgwyliadau uchel iawn o ran safon Cymraeg y disgyblion. Mae'r athrawon yn y gwersi hyn yn paratoi'n effeithiol i drwytho'r disgyblion yn yr eirfa dechnegol briodol ac yn ffocysu ar gystrawen a gramadeg. O ganlyniad, mae disgyblion yn y gwersi hyn yn gwneud mwy o gynnydd wrth datblygu eu Cymraeg o gymharu â gwersi ar batrwm gwahanol.
- 47 Yn gyffredinol, pa strategaeth bynnag sydd ar waith, mae athrawon yn cynnig modelau iaith da yn y Gymraeg ac yn holi'n bwrpasol i sbarduno ymatebion estynedig gan y disgyblion. Yn y mwyafrif o wersi, mae gan yr athrawon ddisgwyliadau uchel o ran safon Cymraeg y disgyblion. Mae'r athrawon yn y gwersi hyn yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg mewn ffordd gadarnhaol ac effeithiol. Defnyddia'r athrawon amrediad eang o arddulliau effeithiol er mwyn ysgogi'r

disgyblion i drafod yn y Gymraeg, er enghraifft drwy roi 'matiau iaith' gyda dechreuadau cyffredin i frawddegau iddynt a geirfa berthnasol. Yn ogystal, mae'r athrawon yn dosbarthu llyfrynnau iaith â geirfa bwnc-benodol a fframiau ysgrifennu sy'n cynnig arweiniad clir ar sut i strwythuro darnau o ysgrifennu estynedig. Mae gan yr athrawon hyn ddisgwyliadau uchel o allu'r disgyblion i gyflawni safonau pynciol uchel drwy'r Gymraeg. Ar y cyfan, gwna'r disgyblion mewn gwersi a gynhelir yn bennaf drwy'r Gymraeg fwy o gynnydd yn eu hyfedredd ieithyddol o gymharu â gwersi ble mae'r cyfrwng addysgu a dysgu'n gymysg.

- 48 Yn y mwyafrif o wersi, ar draws y pynciau, mae'r athrawon yn cywiro gwallau yn iaith lafar y disgyblion mewn modd sensitif ac effeithiol. Yn y gwersi hyn, mae gan yr athrawon ymwybyddiaeth dda o hyfedredd ieithyddol eu disgyblion ac maent yn derbyn ymatebion yn Saesneg neu Gymraeg. Yn yr ychydig wersi mwyafrif effeithiol, mae'r athrawon hefyd yn cynorthwyo disgyblion penodol beth bynnag eu hyfedredd ieithyddol i gynnig ymatebion drwy'r Gymraeg. Mae'r athrawon hyn yn llwyddo i ddatblygu medrau llafar Cymraeg yr holl ddisgyblion yn effeithiol, yn ogystal ag ehangu eu geirfa bwnc-benodol yn y ddwy iaith.

**Astudiaeth achos: Disgybl-tiworiaid yn cefnogi disgyblion eraill nad ydynt yn rhugl yn y Gymraeg**

**Ysgol y Moelwyn, Gwynedd**

**Blwyddyn 10 – gwrs wyddoniaeth**

Yn y wers hon, roedd bron pob un o'r disgyblion yn rhugl yn y Gymraeg ac yn astudio'r pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, roedd y dosbarth hefyd yn cynnwys ambell ddisgybl a oedd yn newydd i'r ardal a'r iaith Gymraeg. Trefnodd yr athro fod y disgyblion hyn yn eistedd wrth ochr disgyblion penodol a oedd yn ddisglair yn y pwnc ac yn gyfathrebwyr da, fel eu bod yn gallu gweithredu fel disgybl-diworiaid.

Roedd y disgybl-diworiaid hyn yn cyfieithu cyflwyniadau'r athro ac yn cynnal trafodaethau bywiog gyda'r disgyblion a oedd yn newydd i'r Gymraeg. Roedd yr arfer hon yn cael effaith fuddiol ar gynnydd pynciol yr holl ddisgyblion oedd ynghlwm â'r trefniadau. Yn ychwanegol, o ganlyniad i weithredu yn y modd hwn, roedd y disgyblion a oedd yn diwtoriaid yn gwneud cynnydd da iawn yn eu medrau cyfathrebu yn ogystal â'u gwybodaeth bynciol. Roedd y trefniant hwn hefyd yn cynorthwyo'r disgyblion a oedd yn newydd i'r ardal i ymgartrefu'n gyflym a gwella'u Cymraeg.

- 49 Dim ond mewn ychydig o wersi mae'r athrawon yn cynllunio'n fwiadus i ddatblygu medrau trawsieithu. Mae'r tasgau gorau yn gosod her i'r disgyblion, er enghraifft trwy aralleirio neu addasu testun ar gyfer cynulleidfa wahanol, crynhoi gwybodaeth, neu ddefnyddio gwefannau penodol i gyfieithu testun ac wedyn cywiro'r gwallau ieithyddol. Mewn ychydig iawn o wersi, mae athrawon yn tynnu sylw'r disgyblion at darddiad ieithyddol geiriau technegol ac yn gofyn iddynt esbonio'r cysylltiad rhwng y termau Saesneg a'r rhai Cymraeg. Mae'r arfer hon yn cael effaith gadarnhaol ar afael y disgyblion ar dermau pynciol yn y Gymraeg a'r Saesneg.
- 50 Mewn lleiafrif o wersi, nid oes gan yr athrawon ddisgwyliadau digon uchel o ddefnydd

y Gymraeg gan y disgyblion. Yn y gwersi hyn, nid yw'r athrawon yn hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn effeithiol. Mae athrawon yn defnyddio gormod o Saesneg wrth gyfathrebu â'r disgyblion, yn enwedig pan fydd her y cysyniadau pynciol yn codi. Nid oes digon o ffocws ar ddatblygu geirfa ehangach yn y Gymraeg, nac ar faterion yn ymwneud â chywirdeb iaith. Ym aml, mae'r athrawon yn darbwyllo disgyblion i ddilyn eu cyrsiau trwy Saesneg ac o ganlyniad yn tanseilio'u hyder wrth ddefnyddio'r iaith. Effaith hyn yw:

- bod disgyblion yn cael yr argraff bod astudio pynciau drwy'r Gymraeg yn andwyo eu llwyddiant academaidd;
- nid yw geirfa gyffredinol a phwnc-benodol y disgyblion yn datblygu digon;
- nid yw disgyblion yn teimlo'n gyfforddus wrth gyfathrebu'n ysgrifenedig neu ar lafar yn y Gymraeg; a
- bod prif gyfrwng cyfathrebu ymhlith y disgyblion yn troi fwyfwy i Saesneg.

- 51 Ym mhob ysgol yr ymwelwyd â hwy, roedd polisi marcio ysgol gyfan yn gosod disgwyliadau clir i athrawon ac yn eu hannog i roi sylw priodol i faterion ieithyddol. Ym mron pob ysgol, mae adran y Gymraeg yn defnyddio polisi marcio yn gyson i wella cywirdeb iaith disgyblion. Yn yr ysgolion lle mae ffocws ar lythrennedd Gymraeg ar draws y pynciau, gwna'r disgyblion gynnydd cyson yn safon eu medrau ieithyddol ysgrifenedig. Ond yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae amrywiad eang yn y graddau mae'r athrawon ar draws y pynciau'n nodi gwallau iaith a rhoi cyfle i'r disgyblion gywiro'u hiaith yn sgil hyn.
- 52 Yn y lleiafrif o'r ysgolion, nid yw athrawon ar draws y pynciau'n defnyddio polisi marcio yr ysgol ar gyfer llythrennedd Gymraeg yn ddigon cyson. Yn ogystal, mewn ychydig o achosion, mae sylwadau gan yr athrawon ar ansawdd gwaith disgyblion wedi'u hysgrifennu mewn iaith wallus.

### **Astudiaeth achos: Polisi marcio ysgol gyfan**

#### **Ysgol Bro Pedr, Ceredigion**

Yn deillio'n wreiddiol o adran y Gymraeg, mae'r holl ysgol bellach wedi mabwysiadu dull hylaw o dynnu sylw at faterion ieithyddol. Mae'r ysgol yn defnyddio'r acronym cofiadwy '**SPLAT**' ('**s**illafu, **p**aragraffu, **r**hywbeth o'i **l**e, **a**talnodi, **t**reiglo') i roi fframwaith defnyddiol i'r athrawon ddilyn wrth farcio gwaith disgyblion ac i'r disgyblion ddefnyddio yn eu tasgau hunanasesu neu wrth asesu eu cyfoedion.

Effaith defnydd y cofweinydd syml hwn yw bod rhan fwyaf yr athrawon ar draws yr adrannau'n rhoi sylw da i gywirdeb iaith yn gyson. Yn ogystal, mae disgyblion yn ei ddefnyddio i hunanasesu neu asesu cyfoedion mewn sawl pwnc. O ganlyniad, mae cywirdeb ieithyddol disgyblion sydd yn dilyn cyfran uchel o gyrsiau yn y Gymraeg yn dangos cynnydd cyson.

## **4 Safonau Gymraeg disgyblion cyfnod allweddol 4**

## Medrau llafaredd

- 53 Mewn ysgolion dwyieithog, mae gan ddisgyblion sydd yn dilyn cwrs TGAU Gymraeg iaith gyntaf y gallu i fynegi eu hunain yn briodol ar y cyfan. Fodd bynnag, yn ystod cyfnod allweddol 4, mae amrywiad eang yn y cynnydd y gwna'r disgyblion hyn yn eu medrau llafaredd. Yn ychwanegol, yn yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion nad ydynt yn dilyn cwrs TGAU Cymraeg iaith gyntaf yn dangos dealltwriaeth sylfaenol o'r iaith ac mae'r mwyafrif yn medru cynnal sgwrs syml yn y Gymraeg. Mae llawer o ffactorau yn ogystal â pholisïau ysgol yn effeithio ar ddilyniant ieithyddol, gan gynnwys yr iaith a siaredir yn y cartref, a faint o Gymraeg sydd yn y gymdeithas leol.
- 54 Yn gyffredinol, po uchaf y gyfran o ddisgyblion sydd yn astudio'u pynciau drwy'r Gymraeg, y gorau yw eu gallu i drafod cysyniadau mewn ystod o gyd-destunau. Yn yr ysgolion â'r gyfran uchaf o ddisgyblion yn dilyn cyrsiau drwy'r Gymraeg yng nghyfnod allweddol 4, clywir defnydd helaeth o'r Gymraeg gan y disgyblion i gyfathrebu'n gymdeithasol ar hyd y coridorau ac ar y buarth.
- 55 Yn gyffredinol, clywir y Gymraeg llafar gorau gan y disgyblion yn yr ysgolion dwyieithog sydd â chyfran uchel o'u ddisgyblion yn dilyn llawer o'u cyrsiau drwy'r Gymraeg. Yn yr ysgolion hyn, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn hyderus wrth ddefnyddio'r iaith ac mae ganddynt agwedd gadarnhaol tuag at ddefnyddio'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu. Mae gan ran fwyaf o'r disgyblion afael gadarn ar derminoleg bwnc-benodol ac maent yn medru defnyddio iaith safonol yn rhugl wrth ymateb i gwestiynau gan eu hathrawon. Yn y gwersi sy'n cael eu cynnal ochr yn ochr yn y Gymraeg a'r Saesneg, mae llawer o'r disgyblion yn llithro rhwng y Gymraeg a'r Saesneg wrth drafod eu gwaith. Fodd bynnag, mae ychydig o ddisgyblion yn yr ysgolion hyn yn defnyddio gormod o eiriau Saesneg a chystrawennau Seisnig wrth gyfathrebu ar lafar yn y Gymraeg.
- 56 Yn gyffredinol, po fwyaf yw nifer y cyrsiau y mae disgyblion yn eu dilyn drwy'r Gymraeg, y gorau yw eu gallu i drafod ystod o faterion heb ddefnyddio geirfa Saesneg. O ganlyniad i astudio amrediad eang o destunau gwahanol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion sydd yn dilyn o leiaf bum pwnc drwy'r Gymraeg, yn datblygu geirfa gyfoethog ynghyd â medrau trafod effeithiol iawn yn y Gymraeg. Mae'r mwyafrif o'r disgyblion hyn yn mynegi eu hunain yn effeithiol yn y Gymraeg ac yn dangos gafael drwyadl ar gystrawen. Defnyddia'r disgyblion hyn yr ieithwedd briodol yn fedrus mewn gwahanol sefyllfaoedd ac maent yn cynnig modelau iaith gwerthfawr i ddisgyblion llai hyfedr. Mae'r disgyblion hyn yn ystyried bod astudio'u pynciau drwy'r Gymraeg yn ddewis naturiol a buddiol. Maent yn ymwybodol o'r manteision diwylliannol, addysgol, ac economaidd sy'n deillio o'u dwyieithrwydd. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion hyn yn awyddus i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.
- 57 Yn yr ysgolion sydd â'r cyfrannau isaf o ddisgyblion yn astudio'u pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mae mwy o amrywiad ym medrau llafaredd disgyblion nag yn yr ysgolion â'r cyfrannau uchaf. Fodd bynnag, mae mwyafrif o'r disgyblion yn yr ysgolion hyn yn gallu mynegi eu syniadau'n ddigon eglur mewn trafodaethau. Mae'r

disgyblion yn defnyddio geirfa gweddol eang ac yn dangos gafael briodol ar gystrawen. Yn yr ysgolion hyn, defnyddia'r mwyafrif o'r disgyblion y dafodiaith leol yn briodol wrth fynegi eu syniadau. Serch hynny, mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio gormod o eiriau Saesneg wrth drafod ac ymateb i gwestiynau. Er bod gan y rhan fwyaf o'r disgyblion agweddau lled gadarnhaol tuag at yr iaith Gymraeg, nid yw'r mwyafrif ohonynt yn awyddus i ddefnyddio'r iaith gydag oedolion neu gyda'u cyfoedion. Prin yw'r disgyblion yn yr ysgolion hyn sydd yn dewis defnyddio'r iaith Gymraeg yn gymdeithasol. Er bod llawer o resymau dros hyn, er enghraifft yr iaith a ddefnyddir yn bennaf yn y gymuned leol a'r cartref, mae diffyg cyswllt rheolaidd â'r iaith o fewn yr ysgol yn cyfrannu at y nodwedd hon.

### Medrau ysgrifenedig

- 58 Mae amrediad eang ym medrau ysgrifenedig disgyblion mewn ysgolion dwyieithog. Yn fras, mae'r patrwm yn debyg i'r hyn sydd yn bodoli ym medrau llafaredd y disgyblion, ond mae'r amrywiad rhwng ysgolion ac ymhlith y disgyblion hyd yn oed yn fwy amlwg. Mewn lleiafrif o achosion, nid yw medrau ysgrifenedig disgyblion cystal â'u medrau llafar. Ar y cyfan, mae gan y merched fedrau ysgrifenedig mwy datblygedig na'r bechgyn.
- 59 Mae gallu disgyblion i ysgrifennu yn y Gymraeg yn amrywio yn ôl eu gallu a'r cynnydd maent yn gwneud yn eu gwersi Cymraeg. Mewn ysgolion â chyfran uchel o ddisgyblion yn dilyn o leiaf ddau gwrs drwy'r Gymraeg, mae gan y mwyafrif o'r disgyblion afael gadarn ar sillafu ac atalnodi, ynghyd â dealltwriaeth briodol o agweddau gramadegol fel terfyniadau berfau a threigliadau. Yn eu gwaith pwnc, mae lleiafrif o'r disgyblion yn tueddu ysgrifennu mewn tafodiaith lle nad yw'n briodol. Mae safonau ysgrifenedig y disgyblion yn dueddol o fod yn uwch yn eu llyfrau Cymraeg fel pwnc nag yn y pynciau eraill. Mae hyn yn ganlyniad yn bennaf i ddisgwyliadau uwch yr athrawon Cymraeg.
- 60 Mewn cyrsiau lle mae'r disgyblion yn cyflawni cyfran o'u gwaith yn y Gymraeg a chyfran yn Saesneg, gwna'r mwyafrif lawer mwy o wallau ieithyddol mewn pynciau ar draws y cwricwlwm nag y gwnânt yn eu llyfrau Cymraeg. Yn y gwersi hyn, mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn defnyddio cymysgedd o Gymraeg gwallus a geiriau Saesneg wrth ysgrifennu, fel y gwelir yn yr enghreifftiau canlynol:

*'Fydd yr adwaith yn huge',  
'rhoïd y Bunsen off', a  
'gadael rhest o y dwr i anwethu pen e hyn'.*

- 61 Gwelir y safonau gorau yng ngwaith ysgrifenedig disgyblion yn yr ysgolion lle mae:
- cyfran uchel o ddisgyblion yn dilyn o leiaf bum cwrs drwy'r Gymraeg;
  - strategaeth ysgol-gyfan sy'n sicrhau bod athrawon pob pwnc yn rhoi sylw priodol i ddatblygiad iaith;
  - disgwyliadau uchel gan athrawon o'r safonau y gall disgyblion eu cyflawni drwy'r Gymraeg; ac
  - athrawon yn cynnig model iaith da i ddisgyblion.
- 62 Mae'r disgyblion yn yr ysgolion dwyieithog hyn yn elwa o'r profiad o ysgrifennu'n



estynedig mewn ystod eang o ffurfiau mewn gwahanol bynciau. Mae llawer o'r disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol iawn wrth ysgrifennu'n estynedig at ystod o bwrpasau a gwahanol gynulleidfaoedd. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o gywair iaith a gall y disgyblion mwyaf abl efelychu ieithwedd a thafodieithoedd eraill yn llwyddiannus. Mae llawer o'r disgyblion yn yr ysgolion hyn yn defnyddio iaith raenus ynghyd â geirfa gyffredinol a phwnc-benodol eang wrth ysgrifennu. Yn anaml iawn y mae'r disgyblion hyn yn defnyddio geiriau Saesneg neu gystrawen chwithig wrth ysgrifennu.

- 63 Yn yr ysgolion â'r cyfrannau isaf o ddisgyblion sy'n dilyn eu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mae amrediad ehangach ym medrau ysgrifenedig disgyblion o gymharu ag ysgolion a drafodwyd uchod. Mae gan leiafrif o'r disgyblion yn yr ysgolion hyn adnoddau iaith cryf sydd yn eu galluogi i fynegi eu hunain yn rhwydd wrth ysgrifennu yn y Gymraeg. Mae sawl ffactor yn effeithio ar hyfedredd disgyblion wrth ysgrifennu; y pwysicaf yw ansawdd yr addysgu maent yn derbyn yn eu gwersi Cymraeg. Fodd bynnag, mae gan fwyaf y disgyblion sy'n dilyn eu cyrsiau yn bennaf drwy Saesneg eirfa gyfyngedig ac mae gan leiafrif ohonynt afael fregus ar gystrawen a rheolau gramadegol y Gymraeg.
- 64 Ym mwyaf y gwersi a arsylwyd, roedd lleiafrif o'r disgyblion a oedd yn rhugl a chyfforddus wrth siarad Cymraeg yn dewis ysgrifennu eu hymatebion yn Saesneg. Y rhesymau am hyn oedd bod:
- disgyblion yn teimlo'n llai hyderus wrth ysgrifennu Gymraeg ac yn fwy cyfarwydd â thermau Saesneg;
  - astudiaethau pellach yn y pwnc yn debygol o fod drwy'r Saesneg;
  - athrawon pwnc yn darbwylo disgyblion i gofnodi eu gwaith yn Saesneg;
  - rhieni yn cynghori disgyblion i ddilyn y pwnc drwy'r Saesneg; neu
  - mae polisi'r ysgol yn gofyn i ddisgyblion ddilyn cyfran o'u pynciau drwy'r Saesneg.
- 65 Mae'r ysgolion dwyieithog lle mae'r cyfrannau uchaf o ddisgyblion yn astudio'u pynciau drwy'r Gymraeg yn ymateb yn gadarnhaol i bryderon y disgyblion a'r rhieni drwy:
- sicrhau cymorth ychwanegol er mwyn cryfhau gwendidau penodol ym medrau iaith disgyblion;
  - trefnu bod athrawon yn cyflwyno termau pwnc-benodol yn gyson yn y Gymraeg a'r Saesneg; a
  - meithrin perthynas agos â rhieni i sicrhau eu bod yn gallu cynorthwyo'u plant.
- 66 Yn y rhan fwyaf o gwersi a arsylwyd, gwneir cynnydd da yn nealltwriaeth a medrau pwnc-penodol y rhan fwyaf o'r disgyblion. Yn y rhan fwyaf o'r gwersi, mae'r disgyblion yn defnyddio'u hyfedredd yn Gymraeg a Saesneg yn effeithiol er mwyn cywain gwybodaeth o destunau Saesneg a'i chymhwyso yn bwrpasol mewn tasgau dysgu. Wrth i ddisgyblion gyfieithu'r wybodaeth hon, maent yn gwneud cynnydd da yn eu hymwybyddiaeth o dermau pynciol Saesneg a'u dealltwriaeth bynciol. Fodd bynnag, yn y gweithgareddau hyn, mae lleiafrif o'r disgyblion yn cyfieithu air-am-air o'r Saesneg ac felly'n ysgrifennu mewn Cymraeg letchwith ac annaturiol.
- 67 Mewn lleiafrif o wersi, mae'r disgyblion yn defnyddio'u gwybodaeth o'r ddwy iaith yn

feddylgar i ategu eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth bynciol. Yn y gwersi hyn, mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau meddwl yn sylweddol wrth drawsieithu testunau. O ganlyniad i gefnogaeth yr athro a defnyddio adnoddau fel rhaglenni gwirio iaith cyfrifiadurol, mae'r disgyblion yn trawsieithu'n effeithiol ac yn gwella eu Cymraeg. Yn y gwersi hyn, mae'r disgyblion yn ymateb i weithgareddau trawsieithu heriol yn gadarnhaol iawn. O ganlyniad i'r ymdrech ychwanegol sydd ynghlwm â chyflawni'r tasgau hyn, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu dealltwriaeth dyfnach o'r pwnc.

## 5 Arweinyddiaeth a gweledigaeth

- 68 Yn yr ysgolion dwyieithog sydd yn sicrhau bod cyfrannau uchel o ddisgyblion yn dilyn eu pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg, mae gan yr uwch dîm rheoli weledigaeth glir a disgywliadau uchel. Mae'r uwch dîm yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb i hyrwyddo dilyniant a pharhad ieithyddol ac yn ymwybodol o fanteision dwyieithrwydd cynyddol ar ddyfodol y disgyblion. Mae gan arweinwyr ar bob lefel ac athrawon unigol, ddisgywliadau uchel o ran y nifer o ddisgyblion sydd yn dilyn cyrsiau drwy'r Gymraeg. Mae'r ysgolion hyn yn gosod targedau meintiol uchelgeisiol ar gyfer cyfran y disgyblion fydd yn dilyn cyrsiau lefel 1 a lefel 2 drwy'r Gymraeg. Mae'r corff llywodraethol yn rhannu gweledigaeth ac amcanion yr ysgol yn y cyswllt hwn ac maent yn herio arweinwyr yn effeithiol mewn perthynas â chynnydd o ran cyflawni'r targedau uchelgeisiol.
- 69 Mae'r ysgolion hyn yn meithrin cysylltiadau agos gyda rhieni ac yn cynnig cefnogaeth i sicrhau eu bod yn cael eu cynnwys yn y penderfyniadau yn ymwneud ag effaith dilyniant ieithyddol ar addysg eu plant. Mae athrawon yn sicrhau bod adnoddau cyfrwng Saesneg ar gael i rieni nad ydynt yn deall y Gymraeg, fel eu bod yn teimlo'n fwy hyderus i gynnig cymorth i'w plant. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys rhestrau o dermau pynciol yn y ddwy iaith, nodiadau mewn Saesneg, a chysylltiadau gwerthfawr i wefannau pwnc-benodol. Mae'r ysgolion hyn yn cynnig dadleuon cryf yn seiliedig ar ymchwil i esbonio i ddisgyblion a rhieni bod parhau i ddilyn cyrsiau drwy'r Gymraeg yn fuddiol. Yn ogystal â manteision diwylliannol a chymdeithasol, y manteision eraill a nodwyd gan yr ysgolion hyn yw:
- bod y disgyblion sy'n dilyn cyrsiau TGAU drwy'r Gymraeg yn cyflawni cystal ac weithiau'n well ar gyfartaledd na'r rhai sydd yn dilyn cyrsiau drwy'r Saesneg (gweler atodiad 3); a'r
  - manteision o ran cyfleoedd cyflogaeth gan bobl sy'n gallu cyfathrebu'n rhugl yn y ddwy iaith; a
  - bod pobl ddwyieithog yng Nghymru yn ennill cyflog cyfartalog uwch na'r rhai sydd yn uniaith Saesneg (Henley and Jones, 2005).
- 70 Yn gyffredinol, o ganlyniad i gynhaliadau gref yr ysgolion hyn, mae bron pob rhiant yn gefnogol iawn i'w plant ddilyn eu cyrsiau drwy'r Gymraeg, beth bynnag eu cefndir ieithyddol.
- 71 Mae'r staff yn yr ysgolion dwyieithog hyn yn rhannu'r nod o gynyddu nifer y disgyblion sy'n dilyn eu cyrsiau yn y Gymraeg ac maent yn ymroi yn egniol i'r dasg o baratoi adnoddau dysgu o ansawdd uchel yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn yr ysgolion hyn, mae gan arweinwyr ar bob lefel ddisgywliadau uchel bod yr athrawon a'r disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Yn ogystal,

mae arweinwyr yn arfarnu effaith eu darpariaeth ar hyfedredd a chynnydd disgyblion o wahanol gefndiroedd ieithyddol wrth drafod, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg.

- 72 Nid yw lleiafrif o ysgolion yn cyflwyno manteision parhau i astudio pynciau drwy'r Gymraeg i rieni na'r disgyblion yn ddigon effeithiol. Yn hytrach na chynnig cefnogaeth i'r rhieni nad ydynt yn hyderus yn y Gymraeg i sicrhau eu bod yn gallu cynorthwyo'u plant, mae'r ysgolion hyn yn ymateb i bryderon y rhieni hyn drwy gynnig y cyrsiau drwy'r Saesneg. Yn aml gwna disgyblion a'u rhieni ddewisiadau heb ystyried manteision parhau â'u hastudiaethau drwy'r Gymraeg.

### **Astudiaeth achos: Defnyddio gweithgaredd rhifedd i hyrwyddo ymwybyddiaeth ddisgyblion o werth dwyieithrwydd yn y gweithle**

#### **Ysgol Aberteifi**

#### **Blwyddyn 9 – gwers Gymraeg**

Er bod cyfran uchel o'r disgyblion yn astudio amrediad eang o bynciau ar draws y cwricwlwm yn nghyfnod allweddol 3 drwy'r Gymraeg, dewisa'r rhan fwyaf o'r disgyblion i ddilyn bron pob un o'u cyrsiau yng nghyfnod allweddol 4 drwy Saesneg. Mae'r ysgol eisiau cynyddu'r niferoedd o ddisgyblion sydd yn dilyn cyrsiau yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 4 ac felly yn ymwybodol bod rhaid iddynt ennyn hyder disgyblion i wneud y dewis hwn.

Fel rhan o'r strategaeth, mae'r ysgol yn gosod dwy dasg rifedd yn eu gwersi Cymraeg yng nghyfnod allweddol 3. Yn y dasg gyntaf, mae'r disgyblion yn cyflawni gwaith ymchwil i'r niferoedd o bobl sydd yn medru siarad y Gymraeg mewn gwahanol ardaloedd ledled Cymru. Maent wedyn yn cymharu'r cyfrannau o siaradwyr Cymraeg mewn gwahanol ardaloedd gwledig â'r cyfrannau sydd yn bodoli mewn dinasoedd â phrifysgolion ac yn cyflwyno eu canfyddiadau mewn siartiau a graffiau perthnasol. Mae'r disgyblion yn dadansoddi'r canlyniadau ac yn ysgrifennu adroddiad ar fanteision bod yn siaradwr Cymraeg mewn ardaloedd lle ceir cyfran gymharol isel o siaradwyr yn y gweithlu.

O ganlyniad i'r gweithgareddau hyn, mae bron pob un o'r disgyblion wedi datblygu agwedd fwy positif at werth economaidd yr iaith. Mae hyn wedi cyfrannu at gynydd yn y nifer o ddisgyblion sy'n dilyn o leiaf un cwrs ychwanegol yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 4 o 10% yn 2013 i 25% ym Medi 2014.

#### **Staffio**

- 73 Er mwyn cynnig arlwy gyfoethog o gyrsiau yn y Gymraeg, mae angen digon o staff addysgu sydd yn hyfedr a hyderus wrth ddysgu drwy'r Gymraeg. Mae anawsterau recriwtio yn rhwystr rhag ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg mewn sawl ysgol ddwyieithog. Yn 2012, dim ond 13% o'r hyfforddeion enillodd y dystysgrif addysg i raddedigion oedd yn gymwys i addysgu drwy'r Gymraeg. Mewn rhai meysydd, mae'r sefyllfa'n fwy difrifol. Er enghraifft, yn 2012, dim ond 4% o hyfforddeion bioleg a 2% o hyfforddeion ieithoedd modern oedd yn medru'r iaith. Dengys data mwyaf diweddar Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru bod traean (32.5%) o athrawon yng Nghymru yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, dim ond chwarter (26.9%) sydd yn hyderus i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r sefyllfa

hon yn gosod her i ysgolion wrth benodi staff priodol yn enwedig mewn rhai meysydd cwricwlaidd, er enghraifft y gwyddorau a'r ieithoedd modern.

- 74 Mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion yn cynnig hyfforddiant a chefnogaeth fuddiol i athrawon a chynorthwywyr er mwyn datblygu eu medrau Cymraeg. Yn yr ysgolion hyn, mae adran y Gymraeg yn rhoi cynhaliaeth werthfawr i aelodau o staff mewn sesiynau ffurfiol, ac yn anffurfiol. Mewn lleiafrif o ysgolion, mae'r awdurdod lleol hefyd yn cynnig hyfforddiant i staff er mwyn datblygu eu hyfedredd a'u hyder yn y Gymraeg. Mae staff yn gwneud y cynnydd mwyaf yn yr ysgolion lle mae aelodau staff eraill yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson wrth gymdeithasu a thrafod gwaith yr ysgol.
- 75 Mae'r mwyafrif o ysgolion yn rhoi'r cyfle i athrawon ddatblygu eu medrau iaith ar gyrsiau sabothol, mewn partneriaeth â chanolfannau rhanbarthol. Nod y cyrsiau hyn yw datblygu a gloywi iaith athrawon a chynorthwywyr dysgu, er mwyn iddynt fod yn hyderus wrth addysgu a gweinyddu drwy'r Gymraeg<sup>5</sup>. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae 58 athro o ysgolion uwchradd wedi derbyn hyfforddiant ar gyrsiau uwch y canolfannau hyn (gweler tabl 4). Mae'r cyrsiau hyn ar gyfer staff addysgol sydd yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl, ond nad oes ganddynt yr hyder neu'r derminoleg arbenigol yn y Gymraeg i ddefnyddio'r medrau hyn yn eu bywydau proffesiynol.

**Tabl 4: Nifer\* y cyfranogwyr ar gyrsiau uwch y Cynllun Sabothol o'r sector ysgolion uwchradd ers 2011**

	De ddwyrain Cymru (Prifysgol Caerdydd)	Gogledd Cymru (Prifysgol Bangor)	De orllewin a Chanolbarth Cymru (Prifysgol Y Drindod Dewi Sant)
2011	12	1	0
2012	7	3	6
2013	7	4	6
2014	2	4	6
<b>Cyfansymiau</b>	<b>28</b>	<b>12</b>	<b>18</b>

\* Ffigyrau gan Lywodraeth Cymru

- 76 Mae llawer o ysgolion dwyieithog yn trafod strategaethau addysgu mewn sesiynau hyfforddiant. Mae gan leiafrif o ysgolion weithgorau defnyddiol i ddatblygu strategaethau er mwyn hyrwyddo dwyieithrwydd. Fodd bynnag, dim ond ychydig o ysgolion sydd â pholisi addysgu sydd yn rhoi canllawiau digon pendant i athrawon o ran defnydd y Gymraeg a'r Saesneg yn eu haddysgu mewn dosbarthiadau dwyieithog. Mae'r enghreifftiau gorau yn cynnwys:

- nodau clir yr ysgol o ran sicrhau dilyniant a datblygiad ieithyddol y disgyblion ar draws y cwricwlwm;
- strategaethau ysgol-gyfan cytûn i ddatblygu llythrennedd Cymraeg ar draws y pynciau;

<sup>5</sup> Am ragor o fanylion gweler: <http://learning.wales.gov.uk/yourcareer/welsh-lang-practitioner-training/sabbatical-scheme/?lang=cy>

- strategaethau addysgu dwyieithog cytûn yn seiliedig ar resymeg glir;
- cysylltiadau i wefannau addysgol cyfrwng Cymraeg defnyddiol; ac
- ystyriaeth sensitif o safbwynt disgyblion ar lefelau gwahanol o hyfedredd yn y Gymraeg.

## Canllawiau arfer dda Ysgol y Moelwyn

### Polisi dwyieithog a phrofiadau i ddisgyblion yn y ddwy iaith

Gall polisi dwyieithog olygu mwy nag un peth.

- 1 Dylai disgyblion o gefndir Saesneg gael profiadau yn y Gymraeg o fewn y cwricwlwm.
- 2 Dylai Cymry Cymraeg gael profiadau o ddefnyddio'r Saesneg ar draws y cwricwlwm.
  - Mae disgyblion yn cael cyswllt â'r Saesneg yn rheolaidd wrth ddefnyddio adnoddau cyfrwng Saesneg.
  - Dylai pob adran gynllunio i ddarparu rhai profiadau ysgrifennu estynedig yn y Saesneg i ddisgyblion (un bob tymor).
  - Dylai pob adran sicrhau bod disgyblion yn meistrolï termau yn ddwyieithog.

### Darparu ar gyfer disgyblion pontio

Y nod yw:

- bod disgybl yn gwneud **mwy** o waith cyfrwng Cymraeg wrth i amser fynd rhagddo;
- bod disgybl yn teimlo'n **bositif** am wneud gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg; a
- bod rhieni'r disgybl yn **cefnogi'r broses bontio** ac yn dawel eu meddwl nad yw hyn yn cael effaith negyddol ar addysg a chyrhaeddiad eu plentyn.

### Ein her ni yw ennill dysgwyr, nid pontio trwy orfodaeth.

- Mae cyfrifoldeb ar bob adran i sicrhau bod disgyblion yn pontio yn y Gymraeg.
- Yr her fwyaf yma yw sicrhau bod disgyblion yn **ennill hyder** i ddefnyddio'r Gymraeg. Nid ar chwarae bach mae dysgwr yn siarad Cymraeg o flaen dosbarth cyfan o siaradwyr rhugl. Technegau addas:
  - anogaeth a **chynnal awyrgylch heb fygythiad**;
  - gwaith grŵp;
  - gwaith pâr;
  - rhoi tasgau syml iawn a rhoi rhagrybudd i ddysgwr am dasg e.e. "dwi am ofyn i ti ddarllen y cwestiwn yma oddi ar y bwrdd gwyn mewn munud"; a
  - chofiwch y rheol deg eiliad! Rhowch gyfle i ddisgybl fewnoli yr hyn a ddywedwch a meddwl am ateb! Mae llawer iawn o ddulliau o wneud hyn.
- Mae deallwriaeth **oddefol** o iaith yn llawer mwy na defnydd **gweithredol**. Gall llawer o ddisgyblion ddeall yn iawn ond cânt hi'n anodd ymateb ar lafar. Felly:

- Peidiwch â throï i'r Saesneg os yw'r disgybl yn deall yr hyn a ddywedwch ond yn ymateb yn y Saesneg. Nid yw'r ffaith fod disgybl yn ateb yn Saesneg yn golygu (o reidrwydd) fod angen i athro siarad Saesneg. Gall nifer o ddisgyblion ddeall y Gymraeg ond heb fod â'r hyder i ateb.
- e.e. Mae'n debygol y byddwch bob amser yn rhoi canllawiau trefn dosbarth e.e. "agorwch eich llyfrau..." yn y Gymraeg yn unig. Wrth ddysgu ambell ddysgwr newydd sydd â dealltwriaeth isel o'r Gymraeg, efallai y byddwch yn esbonio ambell i gysyniad mwy heriol yn y Saesneg. Cynlluniwch yr hyn y dymunwch ei ddweud wrth y dosbarth yn y ddwy iaith.
- Gall darparu deunydd yn y ddwy iaith fod o gymorth i ddisgybl.
  - Wrth i athro siarad yn y Gymraeg, gall y disgybl gyfeirio at y deunydd cyfrwng Cymraeg a Saesneg o'i flaen a dilyn trwy wneud hynny. Mae'r broses o drosi o un iaith i'r llall yn broses werthfawr iawn. Gall hyn weithio'n arbennig o effeithiol gyda disgyblion galluog.
  - Dylid darparu deunydd gwaith cartref yn y ddwy iaith i ddysgwyr.
- **iaith yr athro:**
  - Gwnewch yn siŵr fod y dysgwr yn eich **deall** ac yn **deall** eich nodiadau.
  - Cofiwch ynganu'n glir ac yn bwyllog gan roi sylw arbennig i dermau pwnc.
- Agweddau ymarferol: Gall fod yn ddefnyddiol i ddysgwr newydd gael dwy set o nodiadau ar ddechrau gwers ac esboniad sydyn iawn o'r gwaith yn hytrach nag oedi hyd nes bod pawb arall wedi cael gwaith cyn cael copïau.
- Mae darparu deunydd yn y ddwy iaith o gymorth i rieni deimlo eu bod yn rhan o addysg eu plant.
- Os oes cytundeb fod disgybl cyfnod allweddol 4 yn gwneud cwrs trwy gyfrwng y Saesneg, gall llawer o'r profiadau addysgu barhau i gael eu cyflwyno trwy gyfrwng y Gymraeg.

### Mewnoli a chaffael iaith

- Er mwyn mewnoli iaith mae angen gwersi hwyliog a llawer o sbardunau.
- Mae angen ail adrodd sbardunau. Mae disgybl angen clywed ac ail glywed a gweld nifer o weithiau er mwyn mewnoli geiriau a phatrymau. Mae dysgu ail iaith yn waith corfforol galed!
- Mae angen i ddisgybl gael cyfle i **ddefnyddio** yr hyn a ddysgwyd nifer o weithiau mewn awyrgylch di-her!! Nid dweud un gair mewn 50 munud o wers yw'r ateb!! Rhaid wrth ymarferion pâr, grŵp, ail adrodd a drilio.
- **Yn bwysicach na dim:**
  - Gweithiwch i ddatblygu hyder y disgybl a sicrhewch fod dysgu'r Gymraeg yn brofiad difyr, cyffrous a diogel i'r disgybl – nid profiad o fethu deall, o fethu llwyddo a thaclo profiadau sy'n tansilio hyder.
  - Gwnewch yn siŵr eich bod yn llwyr ymwybodol o lefel hyder y disgybl a lefel meistrolaeth y disgybl ar y Gymraeg.

77 Mae gan ychydig o ysgolion dwyieithog aelod o'r staff sydd yn gyfrifol am hybu'r Gymraeg ar draws yr ysgol. Yn gyffredinol, mae'r staff hyn yn llwyddo i godi statws yr iaith o fewn yr ysgol ac yn cael dylanwad cadarnhaol, yn enwedig ar ddefnydd

cymdeithasol o'r Gymraeg gan y disgyblion a'r staff. Fodd bynnag, dim ond ychydig o ysgolion sydd wedi datblygu cysylltiadau ag ysgolion eraill er mwyn rhannu arfer dda a hwyluso'r broses o lunio adnoddau Cymraeg.

78 Yn y mwyafrif o ysgolion dwyieithog lle mae cyfrannau isel o ddisgyblion yn dilyn eu pynciau drwy'r Gymraeg, nid yw arweinwyr yr ysgol yn ystyried bod cynyddu'r gyfran hon yn flaenoriaeth. Nid yw mwyafrif y staff yn yr ysgolion hyn yn esbonio manteision dilyn cyrsiau drwy'r Gymraeg i ddisgyblion neu rhieni ac nid oes targedau penodol ganddynt i gynyddu'r nifer sydd yn dilyn y trywydd hwn. Er bod mwyafrif y staff yn defnyddio rhywfaint o Gymraeg yn gymdeithasol â'r disgyblion, Saesneg fel arfer yw prif gyfrwng y cyfathrebu addysgol. Mae lleiafrif o staff yn yr ysgolion hyn, er eu bod yn rhugl yn y Gymraeg, yn dewis cynnal sgysiau yn bennaf mewn Saesneg â'r disgyblion. Effaith hyn yw bod:

- mwyafrif o'r disgyblion yn gynyddol llai parod i ddefnyddio'r Gymraeg yn academiaidd neu'n gymdeithasol;
- dirywiad yn hyfedredd cyffredinol y disgyblion wrth siarad ac ysgrifennu yn Gymraeg; a
- dirywiad yn statws y Gymraeg ymysg disgyblion.

79 Mae'r swm o arian sydd yn cael ei drosglwyddo i ysgolion o'r 'Grant y Gymraeg mewn Addysg' yn amrywio'n fawr. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i o leiaf hanner y grant gael ei ddirprwyo i ysgolion yn 2013-2014. Mae lleiafrif o awdurdodau'n defnyddio cyfran o'r grant hwn i ariannu cynlluniau canolog perthnasol er enghraifft i gefnogi prosiectau trochi ar gyfer hwyrddyfodiaid. Nid yw lleiafrif o ysgolion yn derbyn unrhyw arian gan yr awdurdod lleol, er eu bod yn ceisio datblygu eu darpariaeth ddwyieithog. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion sydd yn derbyn grant, yn defnyddio'r arian yn briodol, er enghraifft trwy gefnogi athrawon i gynhyrchu adnoddau addysgu cyfrwng-Cymraeg neu ddatblygu hyfedredd ieithyddol eu staff. Fodd bynnag, mae ychydig yn gwario'r arian yn amhriodol ar bethau nad ydynt yn uniongyrchol yn gysylltiedig â blaenoriaethau'r Strategaeth Addysg Gymraeg, er enghraifft ar offer cyfrifiadurol at ddefnydd cyffredinol.

#### **Astudiaeth achos: Cynllunio er mwyn cynyddu nifer y disgyblion sy'n dilyn eu cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 4**

##### **Ysgol Bodedern**

Mae Ysgol Bodedern yn ysgol ddwyieithog ar ynys Môn. Daw tua 65% o ddisgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith ond mae 89% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf neu i safon gyfatebol.

Penodwyd y pennaeth cyfredol i'w swydd yn Ebrill 2007. Ar y pryd, roedd 63% o'r disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 yn dilyn o leiaf ddau gwrs yn ychwanegol i Gymraeg iaith gyntaf drwy gyfrwng y Gymraeg. Gweledigaeth y pennaeth oedd i gynyddu'r gyfran hon yn sylweddol ond hefyd i sicrhau bod hyfedredd disgyblion yn y Gymraeg a'r Saesneg yn datblygu fel ei gilydd.

Cyflwynwyd polisi bod pob disgybl yng nghyfnod allweddol 4 yn dilyn o leiaf ddau gwrs drwy gyfrwng y Gymraeg, ynghyd â dau gwrs drwy gyfrwng y Saesneg. Wrth gyflwyno'r polisi newydd, bu'n rhaid ymateb i amheuan neu bryderon y staff addysgu,

y disgyblion a'r rhieni. Gan mai cyflawniad pynciol y disgyblion, yn enwedig mewn Saesneg a mathemateg, oedd yr ystyriaeth bwysicaf ym meddyliau'r rhieni, elfen bwysig iawn o'r strategaeth oedd sicrhau safonau uchel ar draws y pynciau, yn enwedig mewn Saesneg a mathemateg.

Gwahoddodd yr ysgol siaradwyr allanol o'r byd academiaidd i drafod buddion a heriau addysgu'n ddwyieithog. Cafodd yr ymweliadau hyn eu dilyn gan sesiynau gwerthfawr ar gyfer rhannu arferion da ymhlith y staff, er enghraifft, defnydd matiau iaith, cod marcio cytûn a sgaffaldau i ymatebion disgyblion ar gyfer atgyfnerthu patrymau iaith cywir. Sicrhaodd y staff addysgu fod yr holl adnoddau dysgu ar gael i'r disgyblion drwy'r Gymraeg a Saesneg. Mae'r adnoddau hyn hefyd yn gymorth gwerthfawr hefyd i'r rhieni nad ydynt yn teimlo'n gyfforddus yn y Gymraeg. Gwahoddwyd rhieni i'r ysgol er mwyn iddynt wrando ar arbenigwr allanol ar addysgu dwyieithog ac i drafod y polisi newydd.

Mewn nosweithiau agored a chyfarfodydd rhieni, caiff y manteision a ddaw o dderbyn addysg dwyieithog eu pwysleisio gan y staff. Yn ogystal â hyn, pwysleisia'r ysgol lwyddiant academiaidd cymharol uwch y garfan o ddisgyblion sydd yn sefyll y gyfran uchaf o'u pynciau drwy'r Gymraeg.

O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae nifer y disgyblion sydd wedi dewis dilyn o leiaf ddau gwrs yn ychwanegol i Gymraeg fel iaith gyntaf drwy gyfrwng y Gymraeg wedi codi o 78% yn haf 2011 i 92% yn haf 2014. Yn ogystal â hyn, mae perfformiad yr ysgol yn y dangosydd lefel 2 yn cynnwys Saesneg neu Gymraeg, a mathemateg, wedi gwella ac, yn 2013, yn gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol am ddim.



## Atodiad 1: Sail y dystiolaeth

Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn deillio o:

- ymweliadau gan arolygwyr â deg ysgol uwchradd ddwyieithog:

Ysgol Gyfun Bro Pedr, Ceredigion  
Ysgol Dyffryn Aman, Sir Gaerfyrddin  
Ysgol Gyfun Aberteifi, Ceredigion  
Ysgol Gyfun Llangefni, Ynys Môn  
Ysgol David Hughes, Ynys Môn  
Ysgol Gyfun Bodedern, Ynys Môn  
Ysgol Dyffryn Nantlle, Gwynedd  
Ysgol Glan-y-Môr, Gwynedd  
Ysgol Dyffryn Ogwen, Gwynedd  
Ysgol y Moelwyn, Gwynedd

- tystiolaeth o arolygiadau o ysgolion dwyieithog rhwng 2010 a 2014;
- trafodaethau gyda swyddogion awdurdodau lleol Gwynedd, Ynys Môn, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion; a
- dadansoddiadau data arholiadau allanol yng Nghymru a Lloegr.

Yn ystod yr ymweliadau, bu arolygwyr yn:

- arsylwi gwersi;
- ymweld â sesiynau cofrestru;
- cyfweld penaethiaid, arweinwyr y Gymraeg ac athrawon,;
- sgwrsio gyda disgyblion;
- craffu ar waith disgyblion ar draws y cwricwlwm; a
- sgwrsio â rhieni.

## Esboniad o eiriau ac ymadroddion a ddefnyddir i ddisgrifio ein harfarniadau

bron i gyd	gydag ychydig iawn o eithriadau
y rhan fwyaf	90% neu fwy
llawer	70% neu fwy
mwyafrif	dros 60%
hanner neu tua hanner	yn agos at 50%
lleiafrif	islaw 40%
ychydig	islaw 20%
ychydig iawn	llai na 10%

## **Atodiad 2: Diffinio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg: y categorïau ar gyfer ysgolion uwchradd**

### **1 Ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg**

**Y cwricwlwm** – Addysgir pob pwnc (gan gynnwys Addysg Grefyddol ac ABCh) heblaw am Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg i bob disgybl, er bod rhai ysgolion, o bosibl, yn cyflwyno terminoleg Saesneg mewn un neu ddau o bynciau.

**Iaith yr ysgol** – Cymraeg yw iaith yr ysgol o ddydd i ddydd. Cymraeg yw'r iaith a ddefnyddir i gyfathrebu â'r disgyblion ac yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith a'r llall.

**Y canlyniadau** – Fel rheol, disgwylir y bydd pob disgybl yn cael ei asesu ym mhob pwnc heblaw am Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4 ac y bydd y disgyblion yn gallu symud ymlaen yn hawdd i ddarpariaeth ôl-16 cyfrwng Cymraeg.

### **2 Ysgol uwchradd ddwyieithog**

**Y cwricwlwm** – Mae'r categori hwn wedi ei rannu'n 4 is-adran, yn ôl canran y pynciau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg a chan ddibynnu ar a yw'n cynnig yr un ddarpariaeth yn Saesneg. Nid yw'r categorïau a'r diffiniadau yn adlewyrchu nifer neu gyfran y disgyblion sy'n manteisio ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn ysgol. Bydd disgwyl i'r cyrff llywodraethol roi gwybodaeth ym mhrospectws yr ysgol ynghylch i ba raddau y ceir dewis y ddarpariaeth ac a yw cael manteisio ar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn amodol ar gymhwysedd y disgybl yn y Gymraeg. Dylid nodi hefyd yn y prospectws faint o ddisgyblion sy'n manteisio ar y dewisiadau sydd ar gael.

**Categori 2A** – Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig i bob disgybl. Mae un neu ddau o bynciau yn cael eu haddysgu i rai o'r disgyblion yn Saesneg neu yn y naill iaith a'r llall.

**Categori 2B** – Addysgir o leiaf 80% o'r pynciau (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.

**Categori 2C** – Addysgir 50-79% o bynciau (ac eithrio'r Gymraeg a Saesneg) drwy gyfrwng y Gymraeg ond fe'u haddysgir drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.

**Categori 2CH** – Addysgir pob pwnc (ac eithrio'r Gymraeg a'r Saesneg) i bob disgybl gan ddefnyddio'r naill iaith a'r llall.

**Iaith yr ysgol** – Y cyd-destun ieithyddol fydd yn pennu iaith neu ieithoedd yr ysgol o ddydd i ddydd. Defnyddir y naill iaith a'r llall i gyfathrebu â'r disgyblion a hefyd yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Cymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni yn y naill iaith a'r llall.

**Y canlyniadau** – Ar gyfer disgyblion yng nghategoriâu 2A, 2B a 2C sy'n dilyn y nifer uchaf posibl o gyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg, disgwylir, fel rheol, y byddent yn cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau hynny yn CA3 a CA4 ac y byddent yn gallu symud ymlaen yn hawdd i ddarpariaeth ôl-16 drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau y maent wedi eu dewis. Ar gyfer disgyblion yng nghategori 2Ch, disgwylir, fel rheol, y byddent yn cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg ym mhob pwnc heblaw am Saesneg yn CA3 a CA4 ac y byddent, fel rheol, yn gallu symud ymlaen yn hawdd i ddarpariaeth ôl-16 drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau y maent wedi eu dewis.

### **3 Ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg**

**Y cwricwlwm** – Addysgir yn y naill iaith a'r llall, ac addysgir 20-49% o'r pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg. Fel rheol, byddai pob pwnc yn cael ei addysgu drwy gyfrwng y Saesneg hefyd.

**Iaith yr ysgol** – Y cyd-destun ieithyddol fydd yn pennu iaith neu ieithoedd yr ysgol o ddydd i ddydd. Defnyddir y naill iaith a'r llall i gyfathrebu â'r disgyblion a hefyd yng ngweinyddiaeth yr ysgol. Rhoddir blaenoriaeth uchel i greu ethos Cymraeg. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni naill ai yn y naill iaith a'r llall, neu yn Saesneg.

**Y canlyniadau** – Fel rheol, disgwylir y gallai'r disgyblion hynny sy'n dewis y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau hynny ar bob lefel ac y byddant, o bosibl, yn gallu symud ymlaen i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau hynny ar ôl-16.

### **4 Ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yn bennaf**

**Y cwricwlwm** – Addysgir y disgyblion yn bennaf drwy gyfrwng y Saesneg. Addysgir y Gymraeg fel ail iaith hyd at CA4. Mae'n bosibl y gellir dewis dysgu un neu ddau bwnc (a allai gynnwys y Gymraeg) drwy gyfrwng y Gymraeg neu drwy gyfrwng y naill iaith a'r llall.

**Iaith yr ysgol** – Saesneg yw iaith yr ysgol o ddydd i ddydd, ond defnyddir rhywfaint o Gymraeg hefyd i gyfathrebu â'r disgyblion, gan anelu at wella eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd. Mae'r ysgol yn cyfathrebu â'r rhieni naill ai yn Saesneg neu yn y naill iaith a'r llall.

**Y canlyniadau** – Fel rheol, disgwylir y gallai unrhyw ddisgyblion sy'n dewis astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg gael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn y pynciau hynny ar bob lefel ac mae'n bosibl y byddent yn gallu symud ymlaen i astudio'r pynciau hynny drwy gyfrwng y Gymraeg ar ôl 16. Byddai'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn cael eu hasesu drwy gyfrwng y Saesneg yn y rhan fwyaf o bynciau a byddent yn symud ymlaen i astudio drwy gyfrwng y Saesneg ar ôl 16.

**Tabl 5: Gwybodaeth ieithyddol yr ysgolion yn y siroedd o dan sylw yn yr adroddiad**

<b>Awdurdod lleol</b>	<b>Categori</b>	<b>Enw'r ysgol</b>	<b>Canran y disgyblion o gefndir teuluol Cymraeg</b>	<b>Canran y disgyblion wedi'u cofrestru ar gyfer TGAU iaith gyntaf</b>	<b>Canran y disgyblion wedi'u cofrestru ar gyfer TGAU iaith gyntaf sydd yn cyflawni graddau A*-C</b>
Ynys Môn	<b>2B</b>	Ysgol Syr Thomas Jones	50.0%	78.5%	69.5%
Ynys Môn	<b>Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg</b>	Ysgol Uwchradd Caergybi	14.0%	12.2%	66.7%
Ynys Môn	<b>2B</b>	Ysgol Gyfun Llangefni	68.0%	87.1%	61.5%
Ynys Môn	<b>2B</b>	Ysgol David Hughes	42.0%	74.2%	60.9%
Ynys Môn	<b>2B</b>	Ysgol Uwchradd Bodedern	65.0%	91.7%	52.5%
Gwynedd	<b>Cyfrwng Cymraeg</b>	Ysgol Dyffryn Ogwen Bethesda	85.0%	92.9%	69.2%
Gwynedd	<b>Cyfrwng Cymraeg</b>	Ysgol Botwnnog	75.0%	94.0%	90.4%
Gwynedd	<b>Cyfrwng Cymraeg</b>	Ysgol Brynrefail	89.0%	94.3%	75.8%
Gwynedd	<b>Cyfrwng Cymraeg</b>	Ysgol Dyffryn Nantlle	84.0%	96.7%	68.5%
Gwynedd	<b>Cyfrwng Cymraeg</b>	Ysgol Eifionydd	74.0%	96.9%	77.4%
Gwynedd	<b>Cyfrwng Cymraeg</b>	Ysgol Y Gader	50.0%	80.0%	63.5%
Gwynedd	<b>Cyfrwng Cymraeg</b>	Ysgol Y Moelwyn	82.0%	95.5%	78.1%
Gwynedd	<b>Cyfrwng Cymraeg</b>	Ysgol Uwchradd Tywyn	27.0%	56.5%	53.8%
Gwynedd	<b>Cyfrwng Cymraeg</b>	Ysgol Y Berwyn	79.0%	94.9%	87.5%

Dilyniant ieithyddol a safonau'r Gymraeg mewn deg ysgol dwyieithog

Gwynedd	<b>Cyfrwng Cymraeg</b>	Ysgol Ardudwy	35.0%	68.2%	82.8%
Gwynedd	<b>Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg</b>	Ysgol Friars	11.0%	28.5%	66.7%
Gwynedd	<b>Cyfrwng Cymraeg</b>	Ysgol Tryfan	64.0%	87.5%	84.3%
Gwynedd	<b>Cyfrwng Cymraeg</b>	Ysgol Syr Hugh Owen	90.0%	87.1%	62.0%
Gwynedd	<b>Cyfrwng Cymraeg</b>	Ysgol Glan y Mor	78.0%	89.7%	90.8%
Ceredigion	<b>2B</b>	Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan*	52.8%	56.9%	85.7%
Ceredigion	<b>2C</b>	Ysgol Gyfun Aberaeron	36.0%	58.6%	70.7%
Ceredigion	<b>2B</b>	Ysgol Uwchradd Aberteifi	34.0%	42.2%	65.7%
Ceredigion	<b>2B</b>	Ysgol Uwchradd Tregaron	53.0%	67.8%	67.5%
Ceredigion	<b>Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg</b>	Penglais School	14.0%	34.4%	43.1%
Ceredigion	<b>2A</b>	Ysgol Gyfun Penweddig	71.0%	94.9%	89.3%
Ceredigion	<b>2A</b>	Ysgol Dyffryn Teifi	82.0%	89.6%	81.7%
Sir Gaerfyrddin	<b>2C</b>	Ysgol Gyfun Pantycelyn	38.0%	59.3%	60.0%
Sir Gaerfyrddin	<b>2C</b>	Ysgol Tre-Gib	36.0%	44.5%	75.3%
Sir Gaerfyrddin	<b>2C</b>	Ysgol Dyffryn Aman	39.0%	40.8%	57.3%
Sir Gaerfyrddin	<b>Saesneg</b>	Ysgol Gyfun Coedcae	1.0%	0.0%	0.0%
Sir Gaerfyrddin	<b>2A</b>	Ysgol Gyfun Y Strade	52.0%	97.2%	82.2%
Sir Gaerfyrddin	<b>Saesneg</b>	Ysgol Glan-y-Mor	1.0%	0.0%	0.0%

Dilyniant ieithyddol a safonau'r Gymraeg mewn deg ysgol dwyieithog

Sir Gaerfyrddin	<b>Saesneg</b>	Ysgol Bryngwyn	6.0%	0.0%	0.0%
Sir Gaerfyrddin	<b>2A</b>	Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin	80.0%	96.7%	82.8%
Sir Gaerfyrddin	<b>Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg</b>	Ysgol Gyfun Emlyn	15.0%	14.2%	50.0%
Sir Gaerfyrddin	<b>2A</b>	Ysgol Gyfun Maes-Yr-Yrfa *	72.0%	95.1%	82.1%
Sir Gaerfyrddin	<b>Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg</b>	Ysgol Y Gwendraeth *	21.0%	23.3%	23.5%
Sir Gaerfyrddin	<b>Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg</b>	Ysgol Queen Elizabeth High	7.0%	4.6%	91.7%
Sir Gaerfyrddin	<b>Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg</b>	Ysgol Dyffryn Taf	8.0%	18.9%	48.1%
Sir Gaerfyrddin	<b>Saesneg</b>	Ysgol Gyfun Gatholig St John Lloyd	2.0%	0.0%	0.0%

(a) Ffynhonnell: cyfrifiad ysgol blynyddol lefel disgybl (PLASC) 2013

(b) Ffynhonnell: Data cyflawniad TGAU 2012 gan llywodraeth Cymru

\* DS Mae'r data'n gywir ar gyfer y flwyddyn academaidd 2012-2013. Ers hynny, mae tair ysgol wedi'u cyfuno ag ysgolion eraill ac yn bodoli mewn ffurfiau gwahanol. Daw'r wybodaeth ynghylch y categori ieithyddol o wefan 'mylocalschool.com'

### Atodiad 3: Data cyrhaeddiad

Fel y gwelir yn nhabl 6, mae disgyblion yn yr awdurdodau Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin sydd wedi'u cofrestru i sefyll eu harholiadau drwy gyfrwng y Gymraeg yn cyflawni cystal ac weithiau'n well na'r rhai a gofrestrwyd yn Saesneg. Mewn tua hanner o achosion, mae'r gwahaniaeth hwn yn arwyddocaol yn ystadegol.

**Tabl 6: Cyflawniad disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer arholiadau TGAU drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yng Ngwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin wedi'i haddasu i ystyried amddifadedd\***

	Disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer arholiad drwy gyfrwng y Gymraeg		Disgyblion a gofrestrwyd ar gyfer arholiad drwy gyfrwng Saesneg		Ydy'r gwahaniaeth yn arwyddocaol yn ystadegol? **
	Nifer yr ymgeiswyr	Canran A*-C	Nifer yr ymgeiswyr	Canran A*-C	
Astudiaethau crefyddol	368	80.2%	100	88.0%	Nac ydy
Bioleg	166	94.0%	313	93.6%	Nac ydy
Celf a dylunio	363	85.7%	278	79.1%	Ydy
Cemeg	182	95.6%	297	93.6%	Nac ydy
Cerddoriaeth	198	96.0%	68	88.2%	Ydy
Crefft, dylunio a thechnoleg	410	74.4%	548	69.7%	Nac ydy
Daearyddiaeth	479	74.9%	299	70.9%	Nac ydy
Drama	132	84.1%	50	82.0%	Nac ydy
Economeg y cartref	134	82.1%	103	70.9%	Ydy
Ffiseg	166	95.8%	310	95.8%	Nac ydy
Ffrangeg	233	86.7%	186	80.6%	Nac ydy
Gwyddorau eraill	1,232	69.5%	1,367	58.7%	Ydy
Hanes	612	81.0%	263	59.7%	Ydy
Mathemateg	1,579	71.5%	1,199	66.9%	Ydy
Technoleg, gwybodaeth a chyfathrebu	109	73.4%	126	70.6%	Nac ydy
Ymarfer corff	362	90.6%	228	82.5%	Ydy
Astudiaethau galwedigaethol	88	86.4%	117	74.4%	Ydy

\* Data TGAU 2013 CBAC. Oherwydd y cysylltiad cryf rhwng amddifadedd a chyflawniad, mae'r ffigurau uchod yn cynnwys cyflawniad y disgyblion nad ydynt â'r hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim yn unig. Nid yw pynciau â llai na 50 ymgeiswyr wedi'u cynnwys. Dylid nodi hefyd fod gan y disgyblion a gofrestrwyd i sefyll arholiad yn y Gymraeg yr hawl i ateb yn Saesneg os ydynt eisiau.

\*\* Mae'r arwyddocâd ystadegol wedi'i gyfrifo gyda'r prawf 'Z'.

**Awdur yr adroddiad cylch gwaith a thîm yr arolwg**

Ceri Jones	AEM
Iolo Dafydd	AEM
Terwyn Tomos	AEM
Dyfrig Ellis	AEM
Rhian Griffiths	AY
Simon Davies	AY